



# Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru

## Cynulleidfa

Darparwyr addysg gychwynnol athrawon, gan gynnwys sefydliadau addysg uwch ac ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig; Pwyllgor Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol Cyngor y Gweithlu Addysg; Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC); Cyngor y Prifysgolion ac Ysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon – Cymru (USCET Cymru); Estyn; athrawon dan hyfforddiant ar gyrsiau addysg gychwynnol athrawon; pawb sy'n ystyried dilyn cwrs addysg gychwynnol athrawon; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; cymdeithasau proffesiynol ac undebau athrawon; adrannau addysg y llywodraeth ganolog; pawb arall sydd â diddordeb.

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn ceisio helpu pawb sy'n ymwneud ag addysg gychwynnol athrawon i ddeall y gofynion ar gyfer darparu addysg gychwynnol athrawon er mwyn gwella ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth a chyflwyno dull gweithredu newydd.

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i unrhyw un sy'n ymwneud ag addysg gychwynnol athrawon, gan gynnwys athrawon dan hyfforddiant, darparwyr yr hyfforddiant a'r rhai sy'n cyflogi ac yn cefnogi athrawon sydd newydd gymhwyso. Dylai pawb sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag addysg gychwynnol athrawon a'r gwaith o gynllunio cyrsiau gael gweld y ddogfen hon a bod yn ymwybodol o'r cefndir statudol.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Gangen Diwygio Addysg Gychwynnol Athrawon

Uned Strategaeth y Gweithlu

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 251209

e-bost: [ITEducationAddysgGA@llyw.cymru](mailto:ITEducationAddysgGA@llyw.cymru)

## Copiâu ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn [llyw.cymru/dysgu](http://llyw.cymru/dysgu)

## Dogfennau cysylltiedig

*Addysgu athrawon yfory* (2015)

*Cymwys am Oes: Cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (2014)

*Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes* (2015)

*Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol - canllawiau* (2016)

# Cynnwys

<b>Rhagair y Gweinidog</b>	<b>2</b>
<b>Rhagair gan yr Athro John Furlong OBE</b>	<b>3</b>
<b>Crynodeb gweithredol</b>	<b>4</b>
Strwythurau a phrosesau rhaglenni	5
Mewnbwn y rhaglenni	6
Deilliannau'r rhaglenni	6
<b>Adran A: Gweledigaeth</b>	<b>7</b>
1. Y cyd-destun polisi	7
2. Profiadau dysgu athrawon dan hyfforddiant	8
3. Ysgolion a sefydliadau addysg uwch yn gweithio mewn partneriaeth	10
<b>Adran B: Meini prawf ar gyfer achredu</b>	<b>12</b>
4. Strwythurau a phrosesau rhaglenni	12
4.1 Arwain a rheoli'r bartneriaeth	13
4.2 Meini prawf ar gyfer cynnwys ysgolion yn y bartneriaeth	14
4.3 Rolau a chyfrifoldebau ym mhob ysgol bartner	14
4.4 Rolau SAU	16
4.5 Y Gymraeg	18
5. Mewnbwn y rhaglenni	19
5.1 Fframwaith cysyniadol	20
5.2 Amcanion y cwrs	20
5.3 Cynllun y cwrs a'r meysydd astudio	20
5.4 Gofynion derbyn a gweithdrefnau dethol	21
5.5 Astudiaethau craidd	21
5.6 Astudiaethau proffesiynol ac addysgeg	22
5.7 Astudiaethau pwnc	23
5.8 Lles	24
5.9 Profiad mewn ysgol	24
5.10 Deddf Cydraddoldeb 2010	25
5.11 Asesu athrawon dan hyfforddiant	25
<b>Adran C: Deilliannau'r rhaglenni</b>	<b>28</b>
6. Deilliannau'r rhaglenni – safonau ar gyfer statws athro cymwysedig (SAC)	28
6.1 Cyrraedd y safonau ar gyfer SAC	28
6.2 Safonau ymsefydlu	29
<b>Geirfa</b>	<b>31</b>
<b>Cyfeiriadau</b>	<b>33</b>
<b>Atodiad 1: Rôl Estyn ac arolygu AGA yng Nghymru</b>	<b>34</b>
<b>Atodiad 2: Gofynion derbyn ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru</b>	<b>36</b>
<b>Atodiad 3: Safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig – mwy o gyngor i Bartneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon wrth ddylunio rhaglenni</b>	<b>37</b>

## Rhagair y Gweinidog

Rwyf am i addysgu fod yn ddewis cyntaf i bobl wrth ystyried gyrfa, er mwyn inni allu denu'r goreuon. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i'r addysg gychwynnol rydym yn ei chynnig i athrawon fod yn iawn.

Rwy'n cydnabod mai dim ond os yw'r addysg gychwynnol hon yn cynnig y sgiliau a'r wybodaeth ofynnol, ac yn ennyn y dymuniad i arwain y newid sy'n ofynnol, y gall y proffesiwn addysgu gyfrannu'n briodol at y broses o godi safonau addysg yn ein hysgolion, yn unol â Dyfodol Llwyddiannus.

Roedd *Addysgu Athrawon Yfory* yn argymhell datblygu dull gwahanol iawn o achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru – gan gydnabod gwerth system wirioneddol gydweithredol a'r gwahaniaeth y gall system o'r fath ei gwneud pan fydd prifysgolion ac ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth go iawn.

Mae'r Meini Prawf Achredu hyn yn egluro ein disgwyliadau – ein gofynion – ar gyfer newidiadau sylfaenol.

1. Rôl fwy i ysgolion;
2. Rôl gliriach i brifysgolion;
3. Cydberchnogaeth o ran rhaglen addysg gychwynnol athrawon;
4. Cyfleoedd strwythuredig i gysylltu dysg ysgolion a phrifysgolion;
5. Rôl ganolog gwaith ymchwil

Mae'r ffordd y caiff addysg gychwynnol athrawon ei hachredu yn ffactor hanfodol wrth sicrhau gwell perfformiad addysgol mewn ysgolion. Drwy wneud corff proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg yn atebol am achredu rhaglenni unigol, gallwn ystyried yn fwy penodol sut bydd y rhaglenni yn codi ansawdd y ddarpariaeth ac yn denu'r bobl iawn i'r proffesiwn sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau iawn a dawn addysgu.

O ailystyried cysyniad y Meini Prawf Achredu a chreu safonau addysgu ac arwain proffesiynol newydd, sy'n nodi disgwyliadau manwl o ran y rheini a dderbynnir i'r proffesiwn, mae gennym gonglfaen proffesiynoldeb newydd ym maes addysg, nid dim ond o ran addysg gychwynnol athrawon, ond o ran dysgu proffesiynol a fydd yn para drwy gydol gyrfa'r athrawon hynny.



**Kirsty Williams AC**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

## Rhagair gan yr Athro John Furlong OBE

Yn ystod hydref 2015, yn dilyn cyhoeddi adroddiad *Addysgu Athrawon Yfory: Opsiynau ynglŷn â dyfodol addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru* (2015), sefydlwyd y Grŵp Achredu Addysg Athrawon - i ddatblygu meini prawf newydd ar gyfer achredu addysg gychwynnol athrawon (AGA) yng Nghymru. Y nod oedd gwella ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth a chyflwyno dull gweithredu newydd. Mae hyn yn hollbwysig os yw'r llywodraeth i gyflawni ei hamcanion ehangach ar gyfer diwygio addysg yng Nghymru.

Datblygwyd meini prawf drafft gan y Grŵp Achredu Addysg Athrawon ac fe'u cyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad rhwng 22 Medi ac 14 Tachwedd 2016. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r meini prawf terfynol sydd wedi'u diwygio yn sgil yr ymgynghoriad hwnnw. Yn y dyfodol, bydd angen i bob rhaglen AGA, boed yn rhaglen newydd neu eisoes yn bod, gael ei hachredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg, drwy ei Bwyllgor Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol ("y Bwrdd").

Dylid darllen pob agwedd ar y ddogfen hon fel rhan o un cyfanwaith. Dylid dehongli'r Meini Prawf (Adran B) yng ngoleuni'r 'Weledigaeth' (Adran A). Y Safonau (Adran C) yw'r deilliannau y bydd yn rhaid i'r athrawon dan hyfforddiant eu cyflawni er mwyn ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC). Er mwyn i raglen gael ei hachredu, bydd yn rhaid i'r darparwyr AGA ymgorffori'r weledigaeth, bodloni'r meini prawf, a dilyn y canllawiau a amlinellir yma.

Mae'r ddogfen wedi'i hysgrifennu ar gyfer holl ddarparwyr cyfredol a darpar ddarparwyr AGA, ond dylai hefyd fod o ddiddordeb i bawb sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru: ysgolion ac athrawon sy'n cydweithio; Estyn; athrawon sydd dan hyfforddiant ar hyn o bryd a darpar athrawon; rhieni; undebau athrawon; Cyngor y Gweithlu Addysg; consortia ac awdurdodau lleol, ac eraill.



**Yr Athro John Furlong OBE**

Cynghorydd AGA Llywodraeth Cymru

## Crynodeb gweithredol

Yn ystod hydref 2015, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn datblygu meini prawf newydd ar gyfer achredu addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru. Ar 22 Medi, cyhoeddwyd meini prawf drafft ac ymgynghorwyd yn eang yn eu cylch<sup>1</sup>; yn dilyn yr ymgynghoriad, diwygiwyd y meini prawf drafft. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu fersiwn derfynol y meini prawf y bydd gofyn i bob rhaglen AGA newydd a chyfredol eu bodloni er mwyn cael ei hachredu yn y dyfodol. Mae'r ddogfen wedi'i hysgrifennu ar gyfer holl ddarparwyr cyfredol a darpar ddarparwyr AGA, ond dylai hefyd fod o ddiddordeb i bawb sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru.

O dan y trefniadau newydd, bydd Estyn yn parhau i chwarae rôl hollbwysig yn cynnal a gwella ansawdd AGA. Ceir manylion sut bydd Estyn, yn y dyfodol, yn gweithio law yn llaw â'r broses achredu yn Atodiad 1.

Mae'r weledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru a gyflwynir yn y ddogfen hon yn cael ei hategu gan gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yn y dyfodol a nodir yn ei fersiwn ddiwygiedig o *Cymwys am oes*<sup>2</sup>. Mae'r ddogfen hon yn cael ei chwblhau ar hyn o bryd. Mae meithrin gallu'r holl ymarferwyr ac arweinwyr yn rhagofyniad hanfodol i'r cynlluniau hynny. Bydd y meini prawf achredu newydd yn sicrhau bod pob cwrs AGA yn bodloni dyheadau uchel y llywodraeth.

Yn ganolog i'r weledigaeth sy'n sail i'r meini prawf newydd mae'r gydnabyddiaeth bod addysg broffesiynol o ansawdd uchel o reidrwydd yn cynnwys nifer o wahanol ddulliau o ddysgu. Drwy brofiad yn unig y gellir dysgu rhai dimensiynau o addysgu tra bod mathau eraill o ddysgu yn ddeallusol yn eu hanfod. Fodd bynnag, dylai'r rhan helaethaf o holl addysg athrawon fod yn seiliedig ar ddysgu sy'n fanwl ymarferol ac yn her ddeallusol ar yr un pryd.

Fel y mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ac eraill<sup>3</sup> bellach yn cydnabod, mae'r enghreifftiau gorau oll o addysg athrawon yn rhyngwladol yn seiliedig ar y ffurf ddeuol hon o ddysgu. Dyma'r ffurf o addysg athrawon sy'n mynd i fod yn hanfodol i Gymru os yw gweledigaeth y llywodraeth ar gyfer ei hysgolion a'i hathrawon yn mynd i gael ei chyflawni. Mae i hyn oblygiadau pwysig ar gyfer ysgolion a phrifysgolion a'r modd maent yn cydweithio.

Os yw ysgolion yn mynd i gael y dasg o ddarparu cyfleoedd hyfforddi systematig a strwythuredig mewn perthynas â phob un o feysydd craidd y cwricwlwm addysg athrawon, yna bydd angen iddynt gael yr adnoddau angenrheidiol, ynghyd â chyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer y staff, er mwyn ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwnnw. Yn y dyfodol, mae'n debygol y bydd nifer llai o ysgolion yn cymryd rhan mewn addysg gychwynnol athrawon nag sydd ar hyn o bryd, ond y bydd niferoedd uwch o fyfyrwyr ar gyrsiau athrawon yn ymwneud â nhw mewn ffyrdd gwahanol.

Os mai tasg sylfaenol prifysgolion yw darparu mynediad i athrawon dan hyfforddiant at wybodaeth broffesiynol nad yw ar gael fel arfer mewn ysgolion, o fewn eu cyfadrannau addysg bydd angen y strwythurau staffio, strategaethau datblygu staff a'r math o ddiwylliant

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru (2017). *Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion: Meini prawf drafft ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru a'r cynnig i Gyngor y Gweithlu Addysg achredu addysg gychwynnol athrawon*

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru (2014). *Cymwys am Oes: Cynllun gwella addysg*

<sup>3</sup> OECD (2012). *Strong performers and successful reformers in education: Lessons from PISA for the United States*

<sup>4</sup> BERA:RSA (2014). *The role of research in teacher education: Reviewing the evidence - Interim report*

ysgolheigaid a fydd yn sicrhau bod gan eu holl addysgwyr athrawon yr adnoddau i gyflawni hyn.

Mae goblygiadau hefyd ynghylch sut mae ysgolion a Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) yn gweithio gyda'i gilydd. Ar lefel y rhaglenni, mae angen eu llunio fel bod yna gyfleoedd strwythuredig ar gyfer dwyn ynghyd y gwahanol fathau o wybodaeth broffesiynol a ddarperir gan bob partner. Gellir gwneud hyn mewn amrywiaeth eang o ffyrdd.

Mae yna hefyd oblygiadau o ran cynllunio ar y cyd. Dim ond os yw prifysgolion a grŵp o ysgolion partner arweiniol yn cydgysylltu i gynllunio'r rhaglen yn ei chyfanrwydd y ceir y cydlyniad sydd ei angen.

Yn olaf, mae angen atebolrwydd ar y cyd. Er mwyn sicrhau addysg athrawon gwirioneddol gydweithredol, rhaid i'r bartneriaeth – y SAU ynghyd â phob un o'u hysgolion partner - gymryd cyfrifoldeb ar y cyd am eu cyfraniadau at y rhaglen.

Mae'r meini prawf achredu newydd wedi'u rhannu'n dri. Sonnir am ddwy ran yn Adran B ac un yn Adran C.

## **Strwythurau a phrosesau rhaglenni**

O ran arweinyddiaeth a rheolaeth rhaglenni, mae'r meini prawf yn nodi'r hyn sy'n ofynnol gan bartneriaethau rhwng ysgolion a SAU. Bydd yn ofynnol i raglenni ddynodi nifer o ysgolion partner arweiniol a fydd yn cyfrannu'n llawn at arweinyddiaeth a rheolaeth y rhaglen, gan gynnwys cynllun a chynnwys y rhaglen a dethol myfyrwyr; byddant hefyd yn chwarae rhan lawn yn y broses o sicrhau ansawdd pob rhaglen a'r hunanwerthuso.

Mae'r meini prawf yn nodi'r hyn sy'n ofynnol gan yr holl ysgolion partner (yr ysgolion partner arweiniol ac eraill) o ran:

- dewis ysgolion
- yr angen i ddatblygu dull gweithredu ar lefel ysgol gyfan wrth gyflwyno addysg athrawon dan arweiniad uwch athrawon
- staffio'r ysgolion a chyfrifoldebau o ran cefnogi dysgu ymhlith athrawon dan hyfforddiant, gan gynnwys mentora a darparu cyfleoedd strwythuredig i fyfyrwyr fyfyrion ar eu harferion
- cyfleoedd datblygu staff
- cyfleusterau ysgolion
- cyfranogiad ysgolion yn y gwaith o reoli'r rhaglen ar y cyd.

Mewn perthynas â SAU, mae'r meini prawf yn nodi:

- lefelau staffio gofynnol, cymwysterau staff a gofynion i'r staff fod yn ymchwil-weithredol
- cyfrifoldebau SAU o ran athrawon dan hyfforddiant, gan gynnwys y gefnogaeth y mae'n rhaid iddynt ei darparu i ddatblygu eu sgiliau mewn llythrennedd, rhifedd,

cymhwysedd digidol a'r Gymraeg er mwyn sicrhau eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cyd-destun addysgu sydd o'u blaenau

- cyfleoedd datblygu staff
- cyfleusterau'r SAU a lles myfyrwyr.

## **Mewnbwn y rhaglenni**

Mae'r adran hon yn amlinellu'r wybodaeth y bydd angen i raglenni AGA yng Nghymru ei darparu mewn perthynas â:

- fframwaith cysyniadol y cwrs
- amcanion y cwrs
- cynllun y cwrs a'r meysydd astudio
- gofynion derbyn athrawon dan hyfforddiant a gweithdrefnau dethol
- astudiaethau craidd
- astudiaethau proffesiynol ac addysgeg
- astudiaethau pwnc
- lles
- profiad mewn ysgol
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- asesu athrawon dan hyfforddiant.

## **Deilliannau'r rhaglenni**

Mae'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn hanfodol i bawb ym maes addysg. Maent yn darparu pwrpas cyffredin. Mae'r disgrifyddion ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC) o fewn y safonau yn nodi'r deilliannau y mae'n rhaid i fyfyrwyr eu cyflawni er mwyn ennill SAC. Bydd angen i raglenni sicrhau bod deilliannau'r athrawon dan hyfforddiant yn adlewyrchu'r safonau hyn yn fanwl.



# Adran A: Gweledigaeth

## 1. Y cyd-destun polisi

Mae'r weledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol athrawon (AGA) yng Nghymru a gyflwynir yn y ddogfen hon yn cael ei hategu gan ddyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yn y dyfodol a nodir yn ei dogfen *Cymwys am oes*<sup>5</sup>:

Bydd dysgwyr yng Nghymru yn mwynhau addysgu a dysgu sy'n eu hysbrydoli i lwyddo, mewn cymuned addysg sy'n cydweithredu ac yn anelu at fod yn wych, lle mae potensial pob plentyn a pherson ifanc yn cael ei ddatblygu (Llywodraeth Cymru, 2014:1).<sup>6</sup>

Fel mae'r llywodraeth ei hun yn nodi, mae 'meithrin gallu'r holl ymarferwyr ac arweinwyr, gan gynnwys y gallu i fyfyrion ar eu harferion eu hunain a'u gwerthuso, i gynllunio a chreu cwricwlwm sy'n berthnasol, ymestynnol a symbylol ac i gymhwyso egwyddorion ac arferion addysgeg priodol' yn hanfodol i wireddu'r dyheadau hyn. (Llywodraeth Cymru 2015: 8)<sup>7</sup>.

Mae meithrin gallu proffesiynol yn un o ddibenion craidd AGA. Bydd y meini prawf achredu newydd yn sicrhau bod pob cwrs AGA yn bodloni dyheadau uchel y llywodraeth<sup>8</sup>. Maent yn diffinio beth sy'n hanfodol ar gyfer darpariaeth o ansawdd uchel, gan gynnwys yr angen i ddarparwyr rhaglenni:

- sicrhau bod SAU ac ysgolion yn cydweithio'n agos fel partneriaid i gynllunio a hwyluso AGA
- denu ymgeiswyr o safon uchel i'r proffesiwn addysgu
- denu pobl o safon uchel fel addysgwyr athrawon mewn ysgolion a SAU a chefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus
- sicrhau cysondeb yn ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr ar draws yr holl raglenni AGA, gan arddangos arfer proffesiynol o ansawdd uchel y gall myfyrwyr ei efelychu yn eu haddysgu eu hunain
- paratoi athrawon newydd i wneud y canlynol:
  - deall sut mae cymdeithas yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif ac anghenion pobl ifanc mewn addysg yn newid
  - meithrin mewn pobl ifanc gariad at ddysgu, a'u haddysgu sut i ddysgu
  - meithrin ystafelloedd dosbarth cynhwysol sy'n bodloni anghenion pob disgybl/myfyriwr

---

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru (2014). *Cymwys am Oes: Cynllun gwella addysg*

<sup>6</sup> Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adeiladu ar hyn yn ei fersiwn ddiwygiedig o *Cymwys am Oes - Cynllun gwella addysg*. Mae'r ddogfen hon yn cael ei chwblhau ar hyn o bryd.

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru (2015). *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes*

<sup>8</sup> O dan y trefniadau newydd ar gyfer achredu rhaglenni, bydd Estyn yn parhau i chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gynnal a gwella ansawdd AGA. Ceir manylion sut bydd Estyn, yn y dyfodol, yn gweithio law yn llaw â'r broses achredu yn Atodiad 1

- cymryd rhan yng nghontinwmm addysg athrawon, y mae AGA yn sylfaen iddi, gan feithrin ymrwymiad athrawon dan hyfforddiant i ddysgu proffesiynol gydol oes
- adeiladu cymuned ddysgu fywiog, gan weithio ochr yn ochr â chydweithwyr, rhieni, disgyblion/myfyrwyr ac eraill
- datblygu gwybodaeth a sgiliau ymchwil, fel defnyddwyr ymchwil ac fel cyfranwyr
- bod yn arloesol ac yn greadigol wrth arwain newid yn y cwricwlwm, wrth asesu ac o ran addysgeg
- gweithredu yn unol â chyfrifoldeb ac atebolrwydd proffesiynol
- datblygu cymhwysedd athrawon dan hyfforddiant i ddefnyddio TGCh ar gyfer dysgu ac addysgu
- meithrin gwerthfawrogiad athrawon dan hyfforddiant o'r iaith Gymraeg a darparu cyfleoedd iddynt ddatblygu eu hyfedredd yn y Gymraeg
- datblygu gwerthfawrogiad athrawon dan hyfforddiant o amrywiaeth diwylliannol mewn cymdeithas ac yn yr ystafell ddosbarth
- sicrhau safonau uchel o ran llythrennedd a rhifedd a chymhwysedd digidol yr athrawon dan hyfforddiant eu hunain. Mae'r rhain yn elfennau craidd o'r cwricwlwm Cymreig erbyn hyn. Mae canllawiau'r *Fframwaith Cymhwysedd Digidol* (2016) yn esbonio: 'Cymhwysedd digidol yw'r enw ar set o sgiliau, gwybodaeth ac agweddau sy'n caniatáu i rywun ddefnyddio technolegau a systemau'n hyderus, yn greadigol ac yn feirniadol. ... Ni ddylid cymysgu rhwng cymhwysedd digidol a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)... Y nod yw datblygu sgiliau digidol y gellir eu defnyddio mewn cysylltiad ag ystod eang o bynciau a senarios, a rheiny'n rhai y gellir eu trosglwyddo i'r byd gwaith.'<sup>9</sup>

## 2. Profiadau dysgu athrawon dan hyfforddiant

Mae angen i raglenni AGA gael eu datblygu ar sail dealltwriaeth glir o'r ffordd y mae oedolion yn dysgu<sup>10</sup>. Yn ganolog i'r weledigaeth sy'n sail i'r meini prawf newydd mae'r gydnabyddiaeth bod addysg broffesiynol o ansawdd uchel o reidrwydd yn cynnwys nifer o wahanol ddulliau o ddysgu. Ar y naill law, mae yna rai dimensiynau addysgu, megis sut i reoli ystafell ddosbarth, y gellir ond eu dysgu drwy brofiad. Gall prifysgolion ddarparu cyfleoedd ar gyfer 'micro-ddysgu' yn niogelwch ystafell seminar a gall ymarferwyr profiadol

<sup>9</sup> Llywodraeth Cymru (2016). *Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol - canllawiau*

<sup>10</sup> Stephen Brookfield (2001). *Understanding and Facilitating Adult Learning* Mae Brookfield yn awgrymu y dylai athrawon feddwl yn ofalus ynghylch yr anghenion a'r prosesau o ran myfyrio'n feirniadol am addysgu, gan sicrhau bod hwn yn adnodd ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol parhaus sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cymdeithas fwy cyfartal. Mae angen addysgu athrawon i fyfyrion ar yr egwyddorion hyn a'u gweithredu fel oedolion sy'n dysgu ymhlith plant

roi cyngor da, ond hyd nes eu bod mewn gwirionedd yn dechrau ymgymryd â'r cyfrifoldeb o reoli grŵp mawr o bobl ifanc, ni fydd athrawon dan hyfforddiant yn dechrau dirnad go iawn gymhlethdod addysgu.

Dimensiwn pwysig arall o'r siwrnai ddysgu broffesiynol ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yw sut maen nhw'n dysgu dod o hyd i'r addysgwyr o'u mewn. Ni ellir dysgu hyn, chwaith, mewn gwirionedd, allan o'i gyd-destun. Mae'n ffurf benodol o ddysgu y gellir ond ei dysgu mewn gwirionedd wrth wneud gwaith athro. Dim ond wedyn gall eraill helpu'r athro dibrofiad, trwy fentora a hyfforddi, i ddatblygu'r agwedd honno ar ei hunaniaeth fel addysgwyr.

Ar ben arall y continwmm mae'r ffurfiau hynny o ddysgu sy'n bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, â sail ddeallusol iddynt, lle mai'r nod yw gwella gwybodaeth a dealltwriaeth addysgwyr proffesiynol ifanc o fyd cymhleth addysgu. Er enghraifft, disgwylir y bydd athrawon sydd newydd gymhwyso yn gyfarwydd, i ryw raddau, â hanes polisi ac arferion addysgol yng Nghymru. Disgwylir iddynt hefyd wybod rhywbeth am y gymdeithas gyfoes yng Nghymru; er enghraifft, y ffaith bod Cymru yn gymdeithas ddwyieithog gyda rhyw 23%<sup>11</sup> o bobl ifanc yn cael eu haddysgu mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog; y ffaith bod yng Nghymru rhyw 31% o bobl ifanc wedi'u nodi fel rhai sy'n byw mewn tloedi (y gyfran uchaf yn y DU)<sup>12</sup> a'r ffyrdd y gall hynny effeithio ar addysgu a dysgu yn y dosbarthiadau lle maent yn gweithio. Mae dysgu am y materion hyn yn amlwg yn berthnasol i arferion athrawon newydd ond, ar yr un pryd, mae'r cysylltiadau hynny'n gymhleth ac weithiau'n anuniongyrchol.

Mae rhai agweddau ar AGA, felly, yn seiliedig yn bennaf ar ddysgu trwy brofiad tra bod eraill yn codi'n bennaf o ddysgu sydd â sail ddeallusol iddo. Fodd bynnag, mewn rhaglen addysg athrawon â sail gadarn iddi, mae'r ddau ddull yma'n rhannau llai amlwg o'r dysgu. Mae'r rhan helaethaf o bob rhaglen addysg athrawon – yr elfennau hynny sy'n delio â materion craidd y cwricwlwm, addysgeg ac asesu - yn seiliedig neu i fod yn seiliedig ar ddysgu sy'n fanwl ymarferol ac yn her ddeallusol ar yr un pryd.

Trwy fod yn barod i wahaniaethu'n effeithiol yn eu haddysgu mewn perthynas ag anghenion dysgu'r holl fyfyrwyr yn eu hystafelloedd dosbarth, er enghraifft, mae angen i athrawon dan hyfforddiant arsylwi a dysgu ochr yn ochr ag athrawon profiadol ac effeithiol wrth iddynt gynllunio ac ymarfer gwahaniaethu. Mae angen cefnogaeth a hyfforddiant ar athrawon dan hyfforddiant yn y broses o wahaniaethu yn eu cynlluniau gwersi a'u haddysgu eu hunain hefyd. Er mwyn datblygu'n gwbl broffesiynol, fodd bynnag, mae angen iddynt wneud llawer mwy na hyn. Mae angen iddynt wybod a deall damcaniaethau sydd wedi'u hen brofi ynghylch sut mae pobl ifanc yn dysgu ac yn dysgu yn wahanol i'w gilydd; mae angen iddynt ddeall sut mae pobl ifanc yn datblygu'n ddeallusol ac yn emosiynol ac yn datblygu'n wahanol; ac mae angen iddynt ddeall rhywbeth am strwythur gwybodaeth yn y pynciau maent yn eu haddysgu fel y gallant ddadagregu cysyniadau allweddol a'u hail-greu mewn gwahanol ffyrdd er mwyn hwyluso'r broses ddysgu i *bob* disgybl yn eu gofal. Mae'r parodrwydd i wahaniaethu yn y ffordd y cyflwynir addysg yn dod drwy brofiad ymarferol wedi'i gynllunio'n ofalus, a dylai ymarferwyr SAU ac ysgolion foddelu arferion da yn hyn o beth. Mae hefyd yn golygu bod angen inni gynnig cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant ddod i gysylltiad â'r ymchwil gorau, boed yn ddamcaniaeth neu'n arfer, mewn mannau eraill ynghylch y prosesau cymhleth hyn.

---

<sup>11</sup> Llywodraeth Cymru (2016) Canlyniadau'r Cyfrifiad Ysgolion, 2016 SDR 87/2016 Tabl 2 a 3 Ysgolion Canol, Cynradd ac Uwchradd <http://gov.wales/docs/statistics/2016/160727-school-census-results-2016-cy.pdf>

<sup>12</sup> Llywodraeth Cymru (2015) *Strategaeth Tloedi Plant Cymru* <http://gov.wales/docs/dsllg/publications/150327-child-poverty-strategy-walesv2-cy.pdf>

Trwy ddwyn at ei gilydd y gwahanol ffurfiau hyn o ddysgu proffesiynol, mae athrawon dan hyfforddiant yn dysgu, fel oedolion, sut i reoli eu harferion eu hunain. Maent yn dysgu datblygu eu damcaniaethau eu hunain ynghylch arferion proffesiynol, myfyrio arnynt a'u hamddiffyn, a thrwy hynny'n datblygu'n athrawon gwirioneddol broffesiynol yn eu rhinwedd eu hunain.

### 3. Ysgolion a sefydliadau addysg uwch yn gweithio mewn partneriaeth

Fel y mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ac eraill<sup>13</sup> <sup>14</sup> bellach yn cydnabod, mae'r enghreifftiau gorau oll o addysg athrawon yn rhyngwladol yn seiliedig ar y ffurf ddeuol hon o ddysgu. Mewn gwledydd megis y Ffindir a Singapore, cynigir rhaglenni i athrawon dan hyfforddiant sy'n darparu hyfforddiant ymarferol, trylwyr, systematig sydd wedyn yn cael ei gyfuno â chyfleoedd i herio a myfyrio trwy roi sylw deallusol i fathau eraill o wybodaeth broffesiynol, gwybodaeth sy'n sail i arferion addysgeg effeithiol: gwybodaeth sy'n deillio o ddamcaniaeth, ymchwil ac arferion rhagorol mewn manau eraill.

Dyma'r math o addysg athrawon sy'n mynd i fod yn hanfodol i Gymru os ydym i wireddu gweledigaeth y llywodraeth ar gyfer ei hysgolion, fel y mae wedi'i nodi yn *Cwricwlwm i Gymru - cwricwlwm am oes*(2015) a'r fersiwn ddiwygiedig o *Cymwys am Oes* (2014), sy'n cael ei chwblhau ar hyn o bryd. Daw canlyniadau pwysig yn sgil hyn, fodd bynnag, ar gyfer ysgolion a phrifysgolion a'r modd y maent yn cydweithredu.

Os yw ysgolion yn mynd i gael y dasg o ddarparu cyfleoedd dysgu systematig a strwythuredig mewn perthynas â phob un o feysydd craidd y cwricwlwm addysg i athrawon, yna mae'n amlwg y bydd angen iddynt gael yr hyfforddiant a'r adnoddau i ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwnnw. Bydd angen i ysgol sy'n bartner arweiniol fod â diwylliant lle mae AGA yn cael ei chydabod fel un o'i chyfrifoldebau craidd, neu'n ysgol sy'n fodlon sefydlu diwylliant o'r fath. Bydd y diwylliant hwnnw yn cynnwys bod yn agored i ystyried a thrafod eu harferion addysgeg ac asesu eu hunain yng ngoleuni tystiolaeth ymchwil ac arferion mewn manau eraill. O ystyried y disgwyliadau hyn, mae'n debygol, yn y dyfodol, y bydd nifer llai o ysgolion yn cymryd rhan mewn AGA nag sydd ar hyn o bryd, ond y bydd niferoedd uwch o athrawon dan hyfforddiant yn ymwneud â nhw mewn ffyrdd gwahanol.

Mae yna oblygiadau i brifysgolion hefyd. Os mai prif dasgau prifysgolion yw darparu mynediad i athrawon dan hyfforddiant at wybodaeth broffesiynol nad yw ar gael fel arfer mewn ysgolion - hynny yw, at ymchwil, at ddamcaniaeth ac at wybodaeth am arferion addysgeg rhagorol ledled Cymru ac yn rhyngwladol - bydd angen i'w hysgolion addysg fod â'r strwythurau staffio, strategaethau datblygu staff a'r math o ddiwylliant ysgolheigaidd a fydd yn sicrhau bod gan eu holl addysgwyr athrawon yr adnoddau i gyflawni hyn.

Mae goblygiadau hefyd o ran sut mae ysgolion a SAU yn gweithio gyda'i gilydd. Yn gyntaf, ar lefel y rhaglenni, mae angen eu llunio fel bod yna gyfleoedd strwythuredig ar gyfer dwyn ynghyd y gwahanol fathau o wybodaeth broffesiynol a ddarperir gan bob partner. Mae angen mentora cyson wedi'i strwythuro'n dda ar athrawon dan hyfforddiant o fewn eu hysgolion; yn eu prifysgolion mae angen darlithoedd, seminarau a gweithdai o ansawdd da arnynt. Ond yn ogystal, bydd angen cyfleoedd arnynt, tra eu bod wedi'u lleoli yn yr ysgol, i ymgysylltu â'r mathau o wybodaeth sydd ar gael trwy brifysgolion; pan fyddant yn y brifysgol

---

<sup>13</sup> OECD (2012). *Strong performers and successful reformers in education: Lessons from PISA for the United States*

<sup>14</sup> BERA:RSA (2014). *The role of research in teacher education: Reviewing the evidence - Interim report*

bydd angen cyfleoedd arnynt i ymgysylltu â'r math o wybodaeth ymarferol sy'n cael ei dysgu yn yr ysgol.

Gellir gwneud hyn mewn amrywiaeth eang o ffyrdd - trwy benodiadau ar y cyd, trwy oruchwyliaeth ar y cyd, drwy 'astudiaethau gwersi'<sup>15</sup> ffurfiol neu 'gylchoedd dysgu'<sup>16</sup>, trwy aseiniadau ysgrifenedig, drwy ddyddiaduron myfyriol. Mewn amrywiaeth eang o ffyrdd, dylai rhaglenni gynnig cyfleoedd strwythuredig i athrawon dan hyfforddiant holi ynghylch yr hyn a ddysgir yn y cyd-destunau gwahanol hyn. Dylent gael eu herio a'u cwestiynu a dysgu nad oes atebion syml. Trwy'r broses hon maent yn dechrau mynegi eu dealltwriaeth eu hunain, eu damcaniaethau eu hunain o arferion proffesiynol.

Mae yna hefyd oblygiadau i gynllunio ar y cyd. Dim ond os yw prifysgolion a grŵp cynrychiadol o ysgolion (ysgolion partner arweiniol) yn mynd ati gyda'i gilydd i gynllunio'r rhaglen yn ei chyfanrwydd y ceir y cydlyniad sydd ei angen. Bydd sefydlu gweithdrefnau cynllunio rhaglen gydweithredol yn galw am ymdeimlad o gydberchnogaeth ar y rhaglenni.

Yn olaf, mae angen cyd-atebolrwydd. Os yw addysg athrawon gwirioneddol gydweithredol yn mynd i gael ei chyflawni, yna mae'n rhaid i'r bartneriaeth - y SAU ynghyd â'i hysgolion partner arweiniol - gymryd cyfrifoldeb ar y cyd am y rhaglen. Mae angen iddynt gydweithredu a bod yn barod i gael eu dwyn i gyfrif gan eu myfyrwyr, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg a'r SAU sy'n dilysu eu rhaglenni.

---

<sup>15</sup>Model Japaneaidd yw 'astudiaethau gwersi', sef ymchwil dan arweiniad tri o athrawon sy'n gweithio gyda'i gilydd i dargedu maes a ddynodwyd i'w ddatblygu yn nysg eu myfyrwyr. Gan ddefnyddio tystiolaeth sydd eisoes yn bodoli, mae unigolion yn cydweithredu i ymchwilio, cynllunio, addysgu ac arsylwi ar gyfres o wersi, gan drafod yn barhaus, myfyrion a defnyddio mewnbyn arbenigol i olrhain a mireinio eu hymyriadau. <http://tdtrust.org/what-is-lesson-study>

<sup>16</sup>System arsylwi mewn grŵp yw 'cylchoedd dysgu' sy'n cael ei hyrwyddo ar hyn o bryd fel dull dysgu proffesiynol yn ysgolion yr Alban. Gweler <http://www.teachingscotland.org.uk/professional-update/professional-learning/33-a-group-perspective.aspx>

## Adran B: Meini prawf ar gyfer achredu

Trefnir y meini prawf, sydd i'w dehongli yng ngoleuni'r 'Weledigaeth' yn Adran A uchod, fel a ganlyn:

- Strwythurau a phrosesau rhaglenni
- Mewnbwn y rhaglenni
- Deilliannau / safonau rhaglenni ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC).

Mae'r adran ar **strwythurau a phrosesau rhaglenni** yn disgrifio rolau a chyfrifoldebau'r bartneriaeth rhwng y SAU ac ysgolion ac yn nodi'r strwythurau rheoli a fydd yn ofynnol os yw rhaglenni i gael eu hachredu.

Mae'r adran ar **fewnbwn y rhaglenni** yn amlinellu'r hyn ddylai gael ei gynnwys mewn rhaglenni AGA yng Nghymru.

Mae **delliannau'r rhaglenni** yn gydnaws â safonau proffesiynol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth, ar y lefel sy'n berthnasol i SAC.

### 4. Strwythurau a phrosesau rhaglenni

Mae'r adran hon yn amlinellu'r gofynion ar gyfer arwain a rheoli rhaglenni AGA. Rhagwelir y bydd yr holl raglenni yn y dyfodol yn cael eu harwain gan bartneriaeth, sef SAU yn cydweithredu'n agos â nifer o ysgolion partner arweiniol. Y bartneriaeth hon fydd yn cyflwyno'r rhaglen achredu. Yn ogystal â hyn, gall y bartneriaeth gydweithredu â nifer o ysgolion partner eraill. Wrth gyflwyno eu rhaglen(ni) achredu, bydd yn ofynnol i bartneriaethau ddisgrifio eu strwythur arwain a rheoli, gan gynnwys sut bydd gwahanol fathau o ysgolion partner a SAU yn cydweithio'n effeithiol.

Mae partneriaethau llwyddiannus yn dod â budd i bawb sy'n gysylltiedig â hwy. Gall athrawon dan hyfforddiant fod yn ffyddiog bod yr holl bartneriaid yn cyfrannu mewn modd trefnus ac integredig i'w AGA. Caiff ysgolion a SAU gyfle i drafod syniadau newydd a manteisio ar eu profiad a'u harbenigedd mewn perthynas ag athrawon dan hyfforddiant. Caiff athrawon gyfleoedd newydd i fyfyrion ar eu harferion eu hunain a'u mynegi, ac i drafod yn broffesiynol â chydweithwyr, athrawon dan hyfforddiant ac eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth, boed yn staff SAU neu'n gweithio mewn ysgolion eraill. Caiff staff SAU gyfleoedd newydd i ddod i gysylltiad ag ysgolion ar lefel ddyfnach, fwy ystyrlon, gan wella eu dealltwriaeth o anghenion athrawon dan hyfforddiant mewn amgylchedd addysg sy'n newid.

Bydd gan ysgolion partner arweiniol ran amlwg yn y broses o recriwtio athrawon dan hyfforddiant, datblygu'r cwricwlwm AGA a darparu cyfleoedd datblygu ar gyfer staff SAU. Byddant yn cyfrannu at y gwaith o arwain o fewn y bartneriaeth ac yn cyfrannu'n llawn at y gwaith o sicrhau ansawdd a hunanwerthuso pob rhaglen.

Mae gan bob ysgol bartner rôl allweddol o ran galluogi athrawon dan hyfforddiant i addysgu, ymchwilio, myfyrion a gwerthuso; ni ddylid eu hystyried fel lleoliadau 'ymarfer addysgu' yn unig.

#### 4.1 Arwain a rheoli'r bartneriaeth

I gael eich achredu, bydd angen gweledigaeth strategol wedi'i diffinio'n glir ar bob partneriaeth, ynghyd â strwythur arwain a rheoli sydd wedi'i ddiffinio'n dda. Felly, dylai partneriaethau ddangos:

- sut mae'r SAU a'r ysgolion partner arweiniol yn rhannu'r dasg o ddatblygu rhaglenni, gan gynnwys rhannu atebolrwydd<sup>17</sup>
- y model ariannol ar gyfer cynnal y bartneriaeth
- sut mae'r rhaglen AGA yn cyd-fynd â gwaith cynllunio strategol cyffredinol y SAU; sut mae'n cysylltu â rhaglenni eraill (AGA a rhaglenni eraill), o fewn y SAU a sut y bydd y SAU yn cefnogi'r gwaith o ailfodelu AGA
- sut bydd SAU yn penderfynu sut i gyllido pob rhaglen, a beth yw atebolrwydd y SAU o ran dyraniadau cyllideb a chynlluniau gwario
- sut bydd hunanwerthuso'n cyfrannu at wella darpariaeth yn barhaus<sup>18</sup>
- sut bydd data, gan gynnwys data ar gymwysterau derbyn athrawon dan hyfforddiant, yn cael ei ddefnyddio i fonitro darpariaeth a chodi safonau, gan gynnwys safonau derbyn
- sut y defnyddir y gwaith cydweithredu â darparwyr AGA eraill yng Nghymru a thu hwnt i gefnogi a datblygu'r rhaglen a chodi safonau AGA ledled y wlad yn gyffredinol
- sut y cesglir safbwyntiau athrawon dan hyfforddiant ac ysgolion a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi datblygiad rhaglenni, gwella ansawdd a hunanwerthuso
- sut y nodir anghenion datblygu staff a sut y darperir datblygiad proffesiynol parhaus
- sut mae'r bartneriaeth yn cynnal dulliau rheoli mewnol ac yn gwarchod cywirdeb cofnodion athrawon dan hyfforddiant
- sut mae mynd ati i sicrhau ansawdd, gan gynnwys wrth hyfforddi mentoriaid a gwella ansawdd ymgeiswyr.

Bydd yn ofynnol i bob partneriaeth ddangos tystiolaeth o gydweithredu systematig a chynaliadwy rhwng ysgolion a SAU, er enghraifft, drwy weithio gyda chonsortia rhanbarthol. *Anogir arloesedd.*

Dylai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, y mae'r naill ochr a'r llall yn cytuno arno, amlinellu sut bydd y bartneriaeth yn gweithio, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau priodol SAU ac ysgolion. Dylid egluro cyfrifoldebau SAU ac ysgolion yn fanwl.

---

<sup>17</sup>Dylid cyflwyno model cydweithredol wrth gyflwyno'u manylion

<sup>18</sup>Dylai hunanwerthuso gynnwys, yn rheolaidd ac o leiaf yn flynyddol, archwilio adroddiadau arholwyr allanol, datblygu a defnyddio data perfformiad ac ymchwil, yn ogystal â dulliau safoni a meincodi eraill

Mae'r rhan fwyaf o gytundebau effeithiol yn ffrwyth ymgynghori fel y gellir rhoi ystyriaeth lawn i farn yr holl bartneriaid. Maent yn ddogfennau gweithio clir y gall pob partner eu defnyddio, a ategir gan ddogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach, ee llawlyfrau cyrsiau. Dylai llawlyfrau cyrsiau ar gyfer athrawon dan hyfforddiant, a staff prifysgolion ac ysgolion nodi rolau SAU ac ysgolion, cyfrifoldebau ac atebolrwydd, fel y cytunwyd gan y bartneriaeth. Byddant yn cael eu hadolygu a'u diwygio'n rheolaidd gan aelodau'r bartneriaeth.

Dylai ysgolion a SAU fwynhau perthynas lle mae'r naill ochr yn parchu'r llall, gan arddangos eu gweledigaeth gyffredin ar gyfer AGA drwy sianelau cyfathrebu agored a'r rolau cydategol y cytunwyd arnynt i addysgu athrawon dan hyfforddiant.

## **4.2 Meini prawf ar gyfer cynnwys ysgolion yn y bartneriaeth**

Dylai'r gweithdrefnau a'r meini prawf ar gyfer dewis ysgolion i ymuno â'r bartneriaeth fod yn glir.

Wrth nodi ysgolion partneriaeth arweiniol, dylai'r SAU ystyried ysgolion effeithiol yn unig sy'n cael eu cydnabod o fewn eu rhanbarthau am ddarpariaeth o ansawdd uchel. Er ei bod yn fater i bartneriaethau unigol ddiffinio a chyfiawnhau yr hyn a ystyriant yn ysgolion 'effeithiol', fel rheol bydd Estyn a/neu'r broses gategoreiddio genedlaethol wedi nodi ysgolion o'r fath. Efallai y bydd partneriaethau yn dymuno cydweithio â chonsortia i nodi'r ysgolion hyn.

Yn gyffredinol, dylai pob partneriaeth gynnwys ysgolion o wahanol fathau, meintiau (gan gynnwys ysgolion bach, gweler 4.3.4), enwadau, cefndiroedd a lleoliadau. Dylai partneriaethau gynnig profiad i bob athro dan hyfforddiant mewn o leiaf ddau fath gwahanol o ysgol.

Dylai pob ysgol lle bydd athrawon dan hyfforddiant wedi'u lleoli fod wedi ymrwymo i fod yn sefydliad sy'n dysgu<sup>19</sup> ac i gynnig amgylchedd sy'n cefnogi addysg athrawon. Dylai pob athro dan hyfforddiant hefyd dreulio o leiaf hanner ei brofiad ysgol mewn ysgol sy'n cael ei chydnabod am ddarpariaeth o safon uchel.

## **4.3 Rolau a chyfrifoldebau ym mhob ysgol bartner**

### **4.3.1 Gweithredu ar lefel ysgol gyfan**

- Dylid meithrin dull ysgol gyfan o gefnogi athrawon dan hyfforddiant, dan arweiniad yr uwch dîm arweinyddiaeth ac arweinwyr eraill o fewn yr ysgol, gan gynnwys mentoriaid
- Dylai cymorth o fewn yr ysgol gynnwys mentora, goruchwyliaeth, adborth adeiladol ac asesu i ba raddau mae athrawon dan hyfforddiant wedi bodloni'r safonau yn ystod eu profiad yn yr ysgol
- Dylai athrawon dan hyfforddiant gael cyfleoedd sydd wedi'u strwythuro yn rheolaidd i fyfyrion ar eu profiad mewn ysgol a'i ddadansoddi, gan fanteisio ar fathau eraill o

---

<sup>19</sup> OECD (2016). "What Makes a School a Learning Organisation? A Guide for Policy Makers, School Leadership and Teachers"



wybodaeth broffesiynol, gan gynnwys damcaniaeth, ymchwil a gwybodaeth am arferion mewn mannau eraill. Dylai hyn gynnwys cyfraniad staff SAU.

#### 4.3.2 Staff yr ysgol a chyfrifoldebau athrawon dan hyfforddiant

- Mae'r gofynion o ran cymorth o fewn yr ysgol yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol yn y bartneriaeth ddynodi uwch staff dynodedig sydd wedi'u hyfforddi, uwch reolwyr yn ddelfrydol, fel cydgysylltwyr. Mae hefyd angen iddynt lunio strategaeth glir ar gyfer dethol a datblygu mentoriaid athrawon dan hyfforddiant
- Dylai mentoriaid athrawon dan hyfforddiant fod yn ymarferwyr profiadol sydd wedi'u hyfforddi ac yn arbenigwyr ar gyfnod neu bwnc. Bydd ysgolion yn nodi sut byddant yn dewis, cynorthwyo a monitro eu mentoriaid
- Dylid gwarchod yr amser sydd gan fentoriaid i weithio gydag athrawon dan hyfforddiant
- Dylai staff sy'n cael eu neilltuo'n benodol ar gyfer y bartneriaeth gael amser sydd wedi'i warchod i gyflawni eu cyfrifoldebau o fewn y bartneriaeth, gan gynnwys amser ar gyfer cynllunio a rheoli lle bo'n briodol
- Dylai holl staff yr ysgol sy'n cymryd rhan reolaidd mewn AGA gael mynediad at raglenni hyfforddi mentoriaid o ansawdd uchel
- Dylai staff mewn ysgolion partner nodi eu hanghenion dysgu proffesiynol fel addysgwyr athrawon a threfnu datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r SAU, neu rywle arall, fel sy'n briodol
- Dylai ysgolion ddarparu cyfleoedd datblygu yn yr ysgol ar gyfer addysgwyr athrawon mewn SAU, yn ôl y gofyn
- Ym mhob cyd-destun profiad mewn ysgol, yn ogystal ag arsylwi ar ystod eang o addysgu, dylai athrawon dan hyfforddiant gynllunio ac addysgu gwersi neu gyfres o wersi a derbyn adborth adeiladol
- Dylai athrawon dan hyfforddiant gael eu cyflwyno'n raddol i addysgu. Dylai hyn gynnwys cyfnodau arsylwi sydd wedi'u cynllunio'n ofalus a chyfleoedd addysgu mewn parau gydag athrawon dan hyfforddiant eraill a gydag athrawon effeithiol sefydledig. Dylid ond disgwyl i athrawon dan hyfforddiant ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am ddsbarthiadau yn raddol. Yn ystod y cyfnod cyntaf o brofiad mewn ysgol, ni ddylent ddysgu mwy na 30% o'r amserlen gyfan. Yn ystod y cyfnod profiad olaf mewn ysgol, ni ddylent addysgu mwy na 75% o'r amserlen. Yn eu cyflwyniadau, dylai partneriaethau nodi eu canllawiau i ysgolion ar y materion hyn

- Dylai athrawon dan hyfforddiant gynnal gweithgareddau amrywiol nad ydynt yn ymwneud ag addysgu, gan gynnwys ymgysylltu â rhieni, gofalwyr, llywodraethwyr a chydweithwyr
- Dylai ysgolion gefnogi athrawon dan hyfforddiant mewn perthynas â'r gofyniad iddynt gymryd rhan mewn ymchwil weithredol yn ystod eu profiad mewn ysgol
- Dylai ysgolion ddarparu mwy o gefnogaeth i athrawon dan hyfforddiant sydd ei hangen, yn unol â gweithdrefnau'r bartneriaeth.

### 4.3.3 Cyfleusterau ysgolion

- Bydd angen i athrawon dan hyfforddiant gael mynediad i ofod gwaith priodol a chyfleusterau TGCh, yn ddelfrydol ar lefel a ddarperir i aelodau staff llawn amser
- Bydd angen i ysgolion sicrhau hefyd fod gofodau preifat ar gael ar gyfer mentora, gwaith grwpiau bach a seminarau
- At ddibenion arbenigol, efallai y bydd yn ofynnol i'r SAU ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol i ddarparu lleoliadau realistig ar gyfer addysgu athrawon dan hyfforddiant

### 4.3.4 Ysgolion bach

Er mwyn adlewyrchu lleoliadau amrywiol system addysg Cymru, mae'n hollbwysig bod darparwyr AGA yn paratoi eu darpar athrawon ar gyfer gyrfaoedd mewn ysgolion bach, gwledig. Disgwylir i bartneriaethau, felly, gynnwys aelodau sy'n adlewyrchu ystod gyfan ein lleoliadau ysgol.

Er mwyn cynnig cymorth effeithiol i fyfyrwyr mewn ysgolion bach, dylai partneriaethau ddefnyddio modelau cydweithredol fel y rheini sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan y consortia a Llywodraeth Cymru. Er mwyn darparu'r gefnogaeth fwyaf effeithiol ar gyfer darpar athrawon mewn ysgolion bach, disgwylir i'r bartneriaeth gyflwyno opsiynau cydweithredol ar gyfer mentora a chefnogi'r myfyrwyr hynny. Dylai hyn gynnwys ffyrdd o roi cyfleoedd iddynt gydweithredu'n effeithiol ag eraill sydd mewn ysgolion o'r fath er mwyn helpu i reoli eu llwyth gwaith. Bydd hyn yn rhoi'r ystod o brofiadau sydd ei angen arnynt mewn rhaglen AGA effeithiol

## 4.4 Rolau SAU

### 4.4.1 Staff y SAU a datblygiad staff

- Dylai'r gymhareb staff addysgu i athrawon dan hyfforddiant a ariennir gan y bartneriaeth fod yn un aelod staff addysgu cyfwerth ag amser llawn i bob 15 o athrawon dan hyfforddiant. Dylai'r rhain fod wedi'u gwasgaru'n briodol rhwng SAU ac ysgolion er mwyn cyflawni'r meini prawf penodedig. Dylai ceisiadau am achrediad amlinellu a chyfiawnhau sut mae staff wedi'u gwasgaru ar draws y bartneriaeth
- Dylai'r gymhareb staff llawn amser i ran-amser fod ar lefel ddigonol i gynnal rhaglen o ansawdd uchel. Dylai ceisiadau am achrediad gyfiawnhau'r gymhareb a nodi sut

mae'r SAU yn sicrhau bod ei staff rhan-amser yn cael eu hintegreiddio'n llawn i'r rhaglen addysgu a'r adran/gyfadran addysg yn fwy cyffredinol

- Dylai staff addysgu feddu ar gymhwyster ar lefel uwch na lefel achredu'r cwrs y maent yn ei addysgu; os nad yw hyn yn wir, dylent fod yn gweithio tuag at gymhwyster uwch. Bydd yn ofynnol i SAU amlinellu eu cynlluniau i sicrhau bod yr holl staff yma yn cyflawni cymhwyster perthnasol o fewn pum mlynedd. Yn gyffredinol, dylai pob darlithydd a thiwtor fod wedi bod yn athrawon ysgol llwyddiannus. Bydd gofyn i bartneriaethau nodi sut mae pawb sy'n cyfrannu at AGA yn cadw eu gwybodaeth a'u profiad o ysgolion yn gyfoes
- Dylai darlithwyr a thiwtoriaid sy'n cyfrannu at brofiad mewn ysgol gymryd rhan reolaidd yn y gwaith o ddatblygu staff, gan gynnwys eu datblygiad yn yr ysgol, er mwyn cefnogi athrawon dan hyfforddiant, cynnal safonau uchel a chyfrannu at sail deg ar gyfer asesiadau. Yn ogystal â hyn, dylai staff SAU gymryd rhan weithgar mewn rhaglenni datblygu proffesiynol sy'n berthnasol i'w rôl o fewn AGA
- Dylai'r SAU ddarparu'r dysgu proffesiynol a allai fod yn ofynnol gan staff yr ysgol i gefnogi athrawon dan hyfforddiant yn effeithiol
- Dylai pob darlithydd a thiwtor SAU fod yn weithgar ym maes ymchwil a chymryd rôl arweiniol wrth gymathu, cynnal, cyhoeddi a goruchwylio ymchwil. Bydd yn ofynnol i bartneriaethau ddangos tystiolaeth o sut mae staff addysgu SAU yn cael eu cefnogi i fynd ati'n weithgar i wneud gwaith ymchwil a dangos sut y bydd eu hymchwil yn sail i ddatblygiad eu rhaglenni AGA.

#### 4.4.2 Cyfrifoldebau SAU o ran athrawon dan hyfforddiant

- Prif gyfrifoldeb SAU yw sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn profi rhaglen AGA o ansawdd uchel sy'n eu galluogi i fod yn athrawon newydd gymhwyso hyderus, cymwys ac ymroddgar
- Dylai SAU helpu athrawon dan hyfforddiant i lunio a chynnal portffolio proffesiynol, gan ddefnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol, sef yr adnodd ar-lein a ddatblygwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg a Llywodraeth Cymru<sup>20</sup>
- Dylai SAU gefnogi athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol ac o ran y Gymraeg (gweler 4.5)

---

<sup>20</sup>E-borthol yw'r Pasbort Dysgu Proffesiynol, a gynhelir ar wefan Cyngor y Gweithlu Addysg. Bydd y Pasbort yn sail i lwybrau gyrfa ymarferwyr ac yn eu helpu i nodi'r cyfleoedd dysgu mwyaf priodol, eu cofnodi a myfyrio arnynt er mwyn iddynt allu parhau i ddatblygu a gwella eu harferion ym mhob cam o'u gyrfa

- Dylai SAU ddarparu mwy o gymorth i athrawon dan hyfforddiant sydd ei angen, yn unol â gweithdrefnau'r bartneriaeth.

#### **4.4.3 Cyfleusterau SAU**

Dylai cyfleusterau priodol fod ar gael i gefnogi addysgu a dysgu, a gwaith ymchwil. Fel arfer, dylai'r rhain gynnwys:

- darlithfeydd ac ystafelloedd adnoddau, fel labordai, mewn lleoliad priodol, o ansawdd – a'r nifer priodol ohonynt
- mynediad a lleoliadau ar gyfer pob rhaglen, sy'n briodol ar gyfer pob myfyriwr
- adnoddau a chyfarpar addysgu priodol ar gyfer holl feysydd y cwricwlwm
- cyfleusterau ac adnoddau llyfrgell, gan gynnwys adnoddau digidol, i ddiwallu anghenion athrawon dan hyfforddiant a staff
- cyfleusterau TGCh sy'n help i gydweithredu'n effeithiol â phob partner.

#### **4.4.4 Diogelu athrawon dan hyfforddiant a'u lles**

- Dylai'r bartneriaeth ddarparu cyngor, cymorth ac arweiniad, gan gynnwys cwnsela, yn ogystal â gwasanaethau meddygol a gyrfaoedd.
- Dylai'r trefniadau diogelu a chwythu'r chwiban fod yn glir.

### **4.5 Y Gymraeg**

Wrth i Gymru symud tuag at fersiwn ddiwygiedig o AGA, dylai partneriaethau fod yn glir am y gweithgarwch a gaiff ei gynnwys yn eu rhaglenni i ddatblygu'r Gymraeg. Dylid mynd ati i sicrhau hyn yn y ddwy ffordd ganlynol.

#### **4.5.1 Darpariaeth Gymraeg gan y bartneriaeth i'r rheini sydd am ddilyn gyrfa mewn ysgolion Cymraeg neu ddwyieithog**

Lle bydd partneriaethau am ddarparu AGA i fyfyrwyr sydd am weithio mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog, dylid nodi'r canlynol yn glir:

- gweithgareddau y bwriedir eu cynnal i feithrin sgiliau addysgeg hyfforddeion i weithio drwy'r Gymraeg (gan gynnwys datblygu arbenigeddau pwnc drwy'r Gymraeg)
- trefniadau i sicrhau bod sgiliau Cymraeg ymarferwyr y dyfodol yn cael eu datblygu yn ystod eu AGA er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn cyrraedd lefel cymhwysedd benodol cyn y byddant yn ymgymhwyso i weithio yn y sector.

Er mwyn sicrhau bod sgiliau addysgeg yn cael eu datblygu'n effeithiol, efallai y bydd partneriaethau am weithio ar lefel genedlaethol i ofalu bod niferoedd digonol o athrawon dan hyfforddiant mewn disgyblaethau lleiafrifol er mwyn sicrhau addysg effeithiol i grwpiau

myfyrwyr o'r fath drwy'r Gymraeg<sup>21</sup>. Yn eu ceisiadau, bydd yn ofynnol i bartneriaethau gynnig trefniadau clir i sicrhau digon o gyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant ddatblygu eu sgiliau mewn grwpiau o faint realistig - hyd yn oed os yw'r grwpiau hynny yn rhai rhithiol ar adegau ac wedi'u trefnu ar draws mwy nag un bartneriaeth.

#### **4.5.2 Darpariaeth gan y bartneriaeth i wella sgiliau Cymraeg holl fyfyrwyr AGA**

Mae *Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am oes* a strategaeth y llywodraeth yn y dyfodol o ran y Gymraeg yn awgrymu y bydd yna newidiadau sylweddol o gymharu â'r hyn yr arferid ei wneud. Bydd y proffesiwn addysgu yn chwarae rôl allweddol o ran sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i oroesi a thyfu. Mae disgwyliadau *Cwricwlwm i Gymru, cwricwlwm am oes* yn ei gwneud yn glir y dylai disgyblion, beth bynnag yw cyfrwng eu haddysg, ddisgwyl cyrraedd lefel cymhwysedd rhyngweithredol drwy'r Gymraeg o leiaf erbyn iddynt gwblhau eu hastudiaethau yn 16 oed.

Er mwyn sicrhau hyn, bydd angen i ysgolion nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg fel iaith addysgu ar hyn o bryd ddefnyddio'r iaith yn gynyddol wrth weithio gyda dysgwyr. Mae hyn yn golygu bod angen niferoedd uwch o athrawon ac eraill sy'n hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Er mwyn cyrraedd y nodau cenedlaethol hyn, dylai partneriaethau AGA sicrhau bod ganddynt gynlluniau clir ar gyfer darpariaeth a all wneud yn siwr bod pob athro dan hyfforddiant yn cael cyfle i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg. Wrth wneud cais i gael eu hachredu, bydd angen i bartneriaethau nodi sut y byddant yn asesu safonau Cymraeg pob athro a fydd yn cofrestru i gael ei hyfforddi, a sut maent yn bwriadu defnyddio amrywiol fethodolegau i feithrin y sgiliau hynny yn ystod profiad AGA y myfyriwr.

## **5. Mewnbyn y rhaglenni**

Wrth gyflwyno eu rhaglenni i gael eu hachredu, bydd yn ofynnol i bartneriaethau ddarparu manylion y canlynol:

- y fframwaith cysyniadol
- amcanion y cwrs
- cynllun y cwrs a'r meysydd astudio
- gofynion derbyn a gweithdrefnau dethol
- astudiaethau craidd
- astudiaethau proffesiynol ac addysgeg
- astudiaethau pwnc
- lles
- profiad mewn ysgol
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- asesu athrawon dan hyfforddiant.

---

<sup>21</sup> Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn hapus i ddarparu canllawiau ar unrhyw agweddau sy'n ymwneud â darpariaeth Gymraeg a'r cyd-destun Cymreig ehangach.

Trafodir y rhain isod.

### 5.1 Fframwaith cysyniadol

Dylai fframwaith cysyniadol clir, ar sail gwerthoedd, egwyddorion ac ymchwil, ategu rhaglenni AGA. Dylai'r fframwaith hwn fod yn amlwg bob amser ym mhob rhan o'r rhaglen, er enghraifft, wrth ddewis cynnwys, strategaethau addysgu a dysgu, prosesau asesu a'r effaith a fwriedir ar y broses addysgu a'r dysgu ymhlith disgyblion ysgol. Dylai SAU ac ysgolion ddatblygu'r fframwaith ar y cyd.

### 5.2 Amcanion y cwrs

Prif amcan rhaglen AGA yw paratoi athrawon dan hyfforddiant i fod yn ymarferwyr cymwys, meddylgar, myfyriol ac arloesol sy'n ymroi i ddarparu addysgu a dysgu o ansawdd uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion/myfyrywyr. Mae angen iddynt gael eu paratoi i gyflawni'r safonau proffesiynol perthnasol er mwyn cael dilyn y sesiwn gynefino statudol ac ar gyfer cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yng Nghymru.

Dylai athrawon dan hyfforddiant ddatblygu'r gwerthoedd, y wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol fel llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a chynhwysiant cymdeithasol ac i gydweithredu â chydweithwyr, cydbroffesiynolion a rhieni. Dylent fod wedi ymroi i'w dysgu proffesiynol gydol oes eu hunain, gan gynnwys mynd ati i wneud gwaith ymchwil ym maes addysg.

### 5.3 Cynllun y cwrs a'r meysydd astudio

Yn ogystal ag amcanion y cwrs, dylai ceisiadau ar gyfer achredu nodi sut y dylid darparu gwahanol elfennau o'r cwrs, megis wyneb yn wyneb, ar-lein neu drwy ddysgu cyfunol. Dylai'r ceisiadau egluro hefyd sut mae dysg athrawon dan hyfforddiant o ysgolion a SAU yn cael ei integreiddio.

Dylai rhaglenni AGA bennu cyfres o gymwyseddau dechreuwyr lefel uchel ar gyfer athrawon dan hyfforddiant, y gallant ychwanegu atynt gydol eu gyrfaeodd. Dylai rhaglenni ganolbwyntio ar ddatblygiad personol myfyrywyr a'u gallu i oresgyn problemau, ynghyd â chymau i'w paratoi ar gyfer bywyd yn yr ystafell ddosbarth ac ar gyfer mynd ati i ymgysylltu â'r gymuned addysg ehangach. Dylid cynllunio cyrsiau mewn ffordd sy'n golygu bod pob athro dan hyfforddiant yn barod i addysgu ar draws o leiaf ddau ystod oedran dilynol o fewn y cwricwlwm. Dylai'r cyrsiau hefyd baratoi athrawon dan hyfforddiant i ysgwyddo cyfrifoldeb am addysgu dosbarth, neu ddosbarthiadau, dros gyfnod sylweddol.

Dylid cynllunio ac integreiddio astudiaethau craidd, astudiaethau proffesiynol ac o ran addysgeg, profiad mewn ysgol ac astudiaethau pwnc yn ofalus. Dylid eu cydbwyso'n effeithiol yn y rhaglen a dylai eu cydberthynas fod yn eglur.

Ar **raglenni ôl-radd blwyddyn safonol**, dylai profiad mewn ysgol gyfrif am oddeutu dwy ran o dair o'r rhaglen; ar **raglenni tair blynedd**, dylai astudiaethau pwnc a phrofiad mewn ysgol gyfrif am oddeutu traean o bob rhaglen<sup>22</sup>.

Dyma'r gofynion mwy penodol ynghylch profiad mewn ysgol:

- 32 wythnos ar gyfer pob rhaglen israddedig gynradd pedair blynedd
- 24 wythnos ar gyfer pob rhaglen israddedig dwy a thair blynedd

---

<sup>22</sup>Sicrhewch bod pob athro dan hyfforddiant yn cael o leiaf 60 diwrnod o hyfforddiant gan SAU/ysgol bob blwyddyn academaidd

- 24 wythnos ar gyfer pob rhaglen ôl-radd uwchradd
- 24 wythnos ar gyfer pob rhaglen ôl-radd gynradd.

Dylai partneriaethau sicrhau bod gan bob athro dan hyfforddiant brofiad mewn o leiaf ddau leoliad ysgol cyferbyniol.

#### **5.4 Gofynion derbyn a gweithdrefnau dethol**

Mae manylion llawn y gofynion derbyn ar raglenni AGA wedi'u nodi yn Atodiad 2.

Wrth ddethol athrawon dan hyfforddiant, rhaid cynnwys y SAU a'r ysgolion. Rhaid cyfweld â'r unigolyn bob amser, gan ofalu bod cynrychiolydd o'r SAU a'r ysgolion yn bresennol. Mae'n rhaid i'r broses ystyried addasrwydd personol ymgeisydd i addysgu, ynghyd â'i alluoedd deallusol ac academaidd.

Hefyd, mae'n rhaid i bartneriaethau fodloni eu hunain bod gan ymgeiswyr y wybodaeth a'r sgiliau priodol mewn rhifedd, llythrennedd a chymhwysedd digidol.

##### **5.4.1 Iechyd a'r gallu corfforol i addysgu**

Rhaid i bartneriaethau sicrhau bod pob ymgeisydd ar raglenni AGA wedi bodloni gofynion y Safonau Iechyd Addysg<sup>23</sup>, gan gadarnhau eu bod yn ddigon iach a bod ganddynt y gallu corfforol i ysgwyddo cyfrifoldebau athro.

Rhaid i bartneriaethau roi sylw dyledus hefyd i'r rheoliadau perthnasol, ac i'w rhwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, fel y'i diwygiwyd. Efallai y bydd y Ddeddf hon yn golygu bod yn rhaid gwneud addasiadau rhesymol yn ôl y gofyn er mwyn i unigolyn allu dilyn cwrs AGA, hyd yn oed os bydd hyn yn arwain at driniaeth fwy ffafriol. Yn hyn o beth, wrth ddethol unigolion i raglenni AGA, bydd angen i bartneriaethau sicrhau nad yw gweithdrefnau a pholisïau dethol yn gwahaniaethu'n annheg yn erbyn ymgeiswyr sydd ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig. I'r perwyl hwnnw, rhaid gofalu bod yr aelodau perthnasol o staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a'r gofynion statudol sydd ar sefydliadau yn sgil y ddyletswydd i ddangos tegwch i bobl anabl.

#### **5.5 Astudiaethau craidd**

Bydd astudiaethau craidd yn defnyddio damcaniaethau, ymchwil ac adnoddau deallusol eraill amrywiol i ddatblygu gwybodaeth athrawon dan hyfforddiant a'u dealltwriaeth, ymysg pethau eraill, o:

- ddamcaniaethau ac ymchwil am addysgeg, datblygiad dynol a dysgu
- rôl asesu wrth addysgu a dysgu
- dylanwadau cymhleth ffactorau personol, cymdeithasol a diwylliannol ar athrawon a dysgwyr<sup>24</sup>

<sup>23</sup>Rheoliadau Addysg (Safonau Iechyd) (Cymru) 2004 (OS 2004 Rhif 2733) <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2004/2733/contents/made>

<sup>24</sup>R. Bishop a T. Glynn (2003). *Culture Counts: Changing Power Relationships in Education*

- natur amrywiol a newidiol y boblogaeth ysgolion yng Nghymru a pha mor berthnasol yw hyn i addysgu a dysgu
- deddfwriaeth gyfredol, gan gynnwys dealltwriaeth o'r Cwricwlwm Cymreig a gofynion o ran y Gymraeg. (mae mwy o wybodaeth am y gofynion o ran y Gymraeg yn 4.5)
- hawliau disgyblion ysgol, gan gynnwys eu hawl i lais mewn materion sy'n ymwneud â'u bywydau
- cyfrifoldebau cytundebol, bugeiliol a chyfreithiol athrawon
- hanes addysg a pholisi addysg yng Nghymru
- sut caiff ysgolion yng Nghymru eu trefnu a'u rheoli ar hyn o bryd a'r haenau atebolrwydd o fewn y system
- rhaglen newydd Llywodraeth Cymru i drawsnewid y system ADY sy'n ceisio trawsnewid disgwyliadau, profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.<sup>25</sup>

## 5.6 Astudiaethau proffesiynol ac addysgeg

Dylai astudiaethau proffesiynol ac addysgeg ddefnyddio damcaniaethau, ymchwil a phrofiad uniongyrchol athrawon dan hyfforddiant mewn ysgolion i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau ymarferol mewn perthynas â'r canlynol, ymysg pethau eraill:

- rheoli a threfnu'r ystafell ddosbarth
- egwyddorion cynllunio cwricwlwm
- cynllunio cwricwlwm i ddiwallu anghenion *pob* dysgwr
- addysgu llythrennedd a rhifedd yn effeithiol
- gwybodaeth am addysgeg pynciau a chynnwys o ran addysgeg
- cyfathrebu effeithiol, gan gynnwys cwestiynu
- cynllunio a defnyddio deunyddiau ar gyfer addysgu a dysgu i sbarduno, cefnogi a herio *pob* dysgwr
- defnyddio technolegau digidol
- diwallu anghenion disgyblion o gefndiroedd diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac economaidd gymdeithasol amrywiol i sicrhau tegwch
- diwallu anghenion disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion arbennig eraill i sicrhau tegwch
- egwyddorion asesu a sut i asesu'n effeithiol i gefnogi ac adrodd ar ddysg disgyblion/myfyrwyr

---

<sup>25</sup> <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/additional-learning-special-educational-needs/transformation-programme/?skip=1&lang=cy>



- defnyddio data, tystiolaeth o ymchwil ac ymholiadau proffesiynol wrth ddatblygu arferion effeithiol
- cydweithredu yn yr ystafell ddosbarth ac â chydweithwyr
- diogelu

## 5.7 Astudiaethau pwnc

### 5.7.1 Meysydd Dysgu a Phrofiad

Mae gan y cwricwlwm cenedlaethol newydd yng Nghymru chwe Maes Dysgu a Phrofiad: celfyddydau mynegiannol; iechyd a lles; dyniaethau; ieithoedd; llythrennedd a chyfathrebu; mathemateg a rhifedd; a gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae angen i bob athro dan hyfforddiant fod yn gyfarwydd â'r meysydd cwricwlaidd hyn, ynghyd â'u dibenion, sef yn bennaf bod plant a phobl ifanc yn datblygu yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- cyfranogwyr mentrus a chreadigol sy'n barod i gyfrannu'n llawn at fywyd a gwaith
- dinasyddion moesegol a gwybodus am Gymru a'r byd
- unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.<sup>26</sup>

Bydd athrawon unigol, gan gynnwys arbenigwyr pwnc mewn ysgolion uwchradd, yn defnyddio'r gwahanol Feysydd Dysgu a Phrofiad wrth gynllunio. Dylid annog athrawon i weithio'n greadigol ac ar y cyd ar draws ffiniau pwnc, yng nghyd-destun pedwar diben y cwricwlwm, gan geisio osgoi creu ffiniau o ran addysgu pynciau. Dylai athrawon allu helpu plant a phobl ifanc i greu cysylltiadau ar draws eu haddysg, gan ddwyn ynghyd wahanol elfennau i'w harchwilio, er enghraifft, pynciau pwysig fel dinasyddiaeth, menter, gallu ariannol a chynaliadwyedd.<sup>27</sup>

Felly, mae angen i raglenni AGA sicrhau bod gwybodaeth athrawon dan hyfforddiant am bynciau a'u gwybodaeth am gynnwys o ran addysgeg ar y lefel angenrheidiol fel y gallant ymgysylltu â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad a sicrhau bod disgyblion/ myfyrwyr yn derbyn addysg o ansawdd uchel.

### 5.7.2 Cynnwys astudiaethau pwnc

Dylai astudiaethau pwnc gynnwys:

- gwybodaeth am gynnwys sy'n briodol i'r cyfnod oedran a ddewiswyd gan yr athrawon dan hyfforddiant neu eu pwnc arbenigol, gan gynnwys cysyniadau allweddol, sylwedd a strwythur y pwnc
- gwybodaeth am gynnwys o ran addysgeg, sy'n briodol i gyfnod oedran neu bwnc arbenigol.

<sup>26</sup> Llywodraeth Cymru (2015). *Cymwys am Oes: Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes*.

<sup>27</sup> Donaldson, G. (2015), *Dyfodol llwyddiannus – Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru*.

Mae angen i geisiadau am achredu nodi sut maent yn nodi meysydd lle ceir gwendidau yng ngwybodaeth athrawon dan hyfforddiant am bwnc a nodi'r gefnogaeth benodol y maent yn ei darparu i fynd i'r afael â gwendidau o'r fath.

### 5.7.3 Astudiaethau pwnc mewn gwahanol raglenni

- Mae'n rhaid i raglenni ar gyfer athrawon **cynradd** gynnwys astudiaethau digonol ym mhob un o'r chwe maes dysgu yn y cwricwlwm ysgolion cynradd i'w paratoi ar gyfer addysgu ar draws blynyddoedd eu dewis arbenigedd
- Mae'n rhaid i raglenni **uwchradd israddedig** ddarparu gwybodaeth ddigon manwl ac eang ar gyfer y maes neu'r meysydd y mae'r athrawon dan hyfforddiant yn bwriadu eu haddysgu. Mae'n rhaid i'r rhaglenni hyn hefyd gynnwys cwricwlwm penodol i ddisgyblaeth ac astudiaethau o ran addysgeg ar gyfer pob maes y mae'r athro graddedig yn bwriadu ei addysgu
- Dylai rhaglenni **uwchradd ôl-radd** baratoi athrawon dan hyfforddiant i addysgu eu pwnc(pynciau) arbenigol ar draws ystod oedran lawn yr ysgol uwchradd.

### 5.8 Lles

Disgwylir i bartneriaethau ddatblygu dulliau o helpu darpar athrawon i reoli eu lles eu hunain, yn ogystal â'u gallu i gyfrannu at lesiant y disgyblion yn eu gofal. Yn achos y ddau grŵp, mae'n bwysig eu cefnogi i oresgyn rhwystrau i'w dysgu a'u helpu'n gorfforol, yn gymdeithasol ac o ran eu cyflwr meddwl. I'r darpar athro a'r disgybl, mae'n hollbwysig rhoi pwrpas iddynt, eu bod yn teimlo'n abl i gyrraedd nodau personol pwysig, a'u bod yn gallu cymryd rhan effeithiol ym mywyd eu hysgol. I sicrhau hyn, dylai partneriaethau sicrhau bod cefnogaeth ar gael i'w darpar athrawon, gan ddatblygu dulliau effeithiol o'u diogelu, a chydberthnasau personol ac o fewn yr ysgol sy'n gefnogol, gan gyfrannu at ysgolion cryf a chynhwysol, iechyd da, diogelwch personol ac amgylcheddau iach yn y dosbarth.

Dylai rhaglenni AGA gynnwys cyfleoedd i ddeall rôl lles yn y broses o ddysgu'n effeithiol, gan gynnwys y gallu i nodi disgyblion sydd mewn perygl o ddiffyg lles, a dylent ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr astudio'r modelau mwyaf effeithiol a ddefnyddir gan ysgolion a'u partneriaid i sicrhau mwy o lesiant i bob dysgwr.

### 5.9 Profiad mewn ysgol

Dylai'r SAU a'i ysgolion partner arweiniol gynllunio ar y cyd y profiad mewn ysgol, yn union fel agweddau eraill ar y rhaglen AGA. Mae'n darparu cyfle hollbwysig i athrawon dan hyfforddiant ddatblygu eu sgiliau addysgu ymarferol a phrofi a datblygu eu damcaniaethau personol eu hunain am addysgu a dysgu. Felly, mae'n rhan ganolog o'r rhaglen addysg athrawon.

Cyn belled ag y bo'n ymarferol, dylai athrawon dan hyfforddiant addysgu disgyblion/myfyrwyr mewn gwahanol grwpiau oedran, gan gynnwys y rheini sydd ag ystod o anghenion addysgol arbennig ac ychwanegol, ac ymgylfarwyddo ag ysgolion ar draws ystod o gyd-destunau cymdeithasol-economaid, ieithyddol a diwylliannol. I grynhoi, bydd y profiad mewn ysgol yn ymgorffori'r cyfleoedd canlynol ar gyfer athrawon dan hyfforddiant:

- **Addysgu**
  - arsylwi ac addysgu ochr yn ochr ag athrawon effeithiol
  - addysgu ar y cyd ag athrawon dan hyfforddiant eraill, lle bo'n briodol
  - addysgu fwyfwy ar eu pen eu hunain, yn enwedig yng nghyfnod olaf y profiad mewn ysgol. Mae addysgu ar y cyd yn ddull cyfreithlon a chyfoethog o ddysgu drwy gydol gyrfa athro, ond disgwylir gweld y gallu i addysgu'n annibynnol erbyn diwedd y rhaglen AGA.
- **Mentora**
  - y cyfle i weithio gyda mentor wedi'i hyfforddi
  - y mentor yn arsylwi ar y myfyriwr a'r myfyriwr yn derbyn adborth rheolaidd.
- **Myfyrio a Datblygiad Proffesiynol**
  - cyfleoedd wedi'u strwythuro i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â'r ysgol gyfan
  - cynnig cyfleoedd ffurfiol rheolaidd (er enghraifft, drwy 'gylchoedd dysgu' neu 'astudiaethau gwersi') i archwilio eu haddysgu eu hunain ac eraill yng ngoleuni mathau eraill o wybodaeth broffesiynol sy'n deillio o ddamcaniaeth, o ymchwil ac o arferion mewn mannau eraill
  - darparu cyfleoedd i gofnodi eu myfyrdodau a'u damcaniaethau newydd eu hunain o arferion mewn dyddiadur/portffolio.

### 5.10 Deddf Cydraddoldeb 2010

Dylai athrawon dan hyfforddiant fod yn gyfarwydd â Deddf Cydraddoldeb 2010, yn enwedig yr elfennau ohoni, fel darpariaeth y cwricwlwm, sy'n berthnasol i ysgolion. Mae'n rhaid i raglenni AGA sicrhau bod pynciau'n cael eu haddysgu mewn ffordd nad yw'n rhoi disgyblion/ myfyrwyr yn agored i wahaniaethu ac sy'n mynd i'r afael yn ddyfal ag anghydraddoldebau allweddol. Dylid annog athrawon dan hyfforddiant i feddwl am y ffyrdd y maent yn addysgu fel nad ydynt yn gwahaniaethu'n anfwriadol yn erbyn unrhyw ddisgyblion/myfyrwyr.<sup>28</sup>

### 5.11 Asesu athrawon dan hyfforddiant

Nod asesu athrawon dan hyfforddiant yw gweld a ydynt yn datblygu fel cyw-athrawon, yn unol â bwriad y Weledigaeth ar gyfer AGA sy'n sail i'r Meini Prawf ar gyfer rhaglenni AGA. Caiff twf personol a phroffesiynol athrawon dan hyfforddiant drwy eu rhaglen AGA ei ddangos yn ôl sut maent yn cyflawni'r disgrifyddion ar gyfer SAC, sydd wedi'u nodi yn safonau proffesiynol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Dylai'r asesiad o athrawon dan hyfforddiant:

- gael ei gynnal gydol y cwrs, gyda chyfnodau cynnydd wedi'u nodi'n glir

---

<sup>28</sup> Addaswyd hyn o ddogfen y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2014). *Yr hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparwr addysg yng Nghymru: canllawiau i ysgolion*

- cynnwys asesiad ffurfiannol a chyfunol
- defnyddio ystod o fesurau, gan gynnwys arsylwi, trafod, aseiniadau ysgrifenedig a phrosiectau ymchwil weithredol
- cynnwys aseswyr/arholwyr o fewn y bartneriaeth ac aseswyr/arholwyr annibynnol, allanol a benodir gan y bartneriaeth
- darparu ar gyfer dulliau o bob math, ee cydwerthuso gan yr athro dan hyfforddiant a'i addysgwr, hunanwerthuso a gwerthuso gan athrawon eraill dan hyfforddiant.

Rhaid i bob partneriaeth sicrhau bod gweithdrefnau safoni mewnol trylwyr a gweithdrefnau safoni allanol annibynnol ar waith ar gyfer asesu pa mor ddibynadwy a chywir yw'r asesiadau. I'r perwyl hwnnw, bydd yr asesu yn seiliedig ar system o wiriadau ar sail tystiolaeth o fewn y bartneriaeth, mewn ymgynghoriad ag aseswyr allanol, er mwyn sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant mewn gwahanol leoliadau yn cael eu hasesu mewn ffordd gyson a theg.

Mae'n rhaid i athrawon dan hyfforddiant fodloni safonau elfen profiad mewn ysgol eu rhaglen os ydynt am ennill eu cymhwyster. Dylai athrawon dan hyfforddiant sy'n methu gwneud hynny gael cynnig sesiynau i gyfoethogi eu haddysgu a mentora pellach cyn cael cynnig cyfle pellach i gael profiad mewn ysgol. Dim ond dau gyfle y bydd athrawon dan hyfforddiant yn ei gael i lwyddo ym mhob profiad mewn ysgol.

Dylai partneriaethau wneud darpariaeth benodol ar gyfer arweiniad gyrfaoedd ar gyfer athrawon dan hyfforddiant nad ydynt yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig yn ystod y rhaglen.

#### **5.11.1 Rôl proffil dechrau gyrfa wrth asesu athrawon dan hyfforddiant**

Mae'r proffil dechrau gyrfa yn adlewyrchu cyfuniad o asesiadau unigol gan addysgwyr athrawon y bartneriaeth, asesiadau ar y cyd rhwng addysgwyr yr athrawon a'r athrawon dan hyfforddiant, a hunanasesiadau gan yr athrawon dan hyfforddiant.

Mae'r proffil dechrau gyrfa wedi'i gynllunio fel y gellir ei ddefnyddio mewn modd hyblyg, ac fel y bydd yn ategu neu'n dod yn rhan o'r prosesau cofnodi, myfyrio a chynllunio sy'n codi'n naturiol yn ystod AGA. Bydd y proffil yn helpu athrawon dan hyfforddiant, wrth iddynt drafod gyda'u haddysgwyr nhw, i ystyried eu profiad cyn ac yn ystod eu rhaglen AGA ffurfiol, a nodi'r prif bwyntiau mewn perthynas â'u haddysgu. Mae hefyd yn eu helpu i feddwl am yr hyn y dylid canolbwyntio arno yn eu datblygiad proffesiynol yn y dyfodol er mwyn:

- myfyrio ar yr agweddau cryf ar eu harferion addysgu a'u datblygu
- datblygu agweddau ar rôl yr athro y mae ganddynt ddiddordeb arbennig ynddynt
- rhoi mwy o brofiad, neu feithrin arbenigedd, mewn meysydd nad ydynt wedi'u datblygu cymaint hyd yma.

#### **5.11.2 Gwella drwy asesu**

Mae asesu athrawon dan hyfforddiant yn gyfle i bartneriaethau nodi cryfderau a gwendidau yn eu rhaglenni. Rhaid i'r partneriaethau sicrhau bod yr aseswyr mewnol ac allanol yn cysylltu'r cryfderau a'r gwendidau y maent yn arsylwi arnynt mewn hyfforddeion penodol â chryfderau a gwendidau posibl yn ansawdd eu rhaglen addysg i athrawon yn gyffredinol. Yn

y cyd-destun hwnnw, rhaid i bartneriaethau sicrhau yr ymchwiler i faterion sy'n ymwneud ag ansawdd, a godir drwy asesiadau mewnol ac allanol, ac yr eir i'r afael â nhw er mwyn gwella profiadau athrawon dan hyfforddiant ar y rhaglen.

Yn ogystal â diogelu safon SAC, dylai'r broses asesu gynnig tystiolaeth i helpu'r partneriaethau i werthuso eu perfformiad eu hunain ac i ddyfeisio cynlluniau i'w wella. Dylent hefyd ofyn i'r aseswyr allanol wneud argymhellion penodol ar gyfer gwella. Wedyn gallant ddefnyddio'r dystiolaeth hon, ynghyd â thystiolaeth o ffynonellau eraill, ee adroddiadau arolygiadau, data perfformiad ac adborth gan athrawon eraill dan hyfforddiant, fel sail i gynllunio camau gweithredu a phennu targedau ar gyfer gwella.

## Adran C: Deilliannau'r rhaglenni

### 6. Deilliannau'r rhaglenni – safonau ar gyfer statws athro cymwysedig (SAC)

Mae safonau proffesiynol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn hanfodol i bawb ym maes addysg, gan roi ymwybyddiaeth gref o bwrpas cyffredin. Mae **deilliannau rhaglenni** AGA yn gydnaws â'r safonau, ar y lefel sy'n ymwneud â dyfarnu SAC. Y rhain yw'r sylfaen ar gyfer y continwmm o addysg athrawon.

Dylid ystyried, deall ac asesu'r safonau ar gyfer SAC yng ngoleuni'r dull integredig mewn perthynas ag AGA a nodir yn y Weledigaeth ar gyfer addysg athrawon yn Adran A y ddogfen hon. Dylai deilliannau rhaglenni AGA adlewyrchu'r Weledigaeth ar gyfer AGA mewn perthynas â gwerthoedd proffesiynol, y cwricwlwm, addysgeg, asesu, yr amgylchedd dysgu, y cyd-destun ehangach, myfyrio proffesiynol a rhwydweithiau dysgu proffesiynol, arweinyddiaeth ac ymrwymiad athrawon dan hyfforddiant i'w dysgu proffesiynol yn y dyfodol.

#### 6.1 Cyrraedd y safonau ar gyfer SAC

Mae'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn nodi'n glir y gofynion ar gyfer derbyn unigolyn i'r proffesiwn ac yn pennu disgwyliadau o ran datblygiad drwy gydol ei yrfa broffesiynol. Drwy gydol y Rhaglen AGA, bydd tystiolaeth gadarn a gesglir yn sail i benderfyniadau ynghylch bodloni'r disgrifyddion perthnasol o fewn y safonau. Dim ond i'r rheini sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer SAC y dyfernir y Statws. Yn y cyd-destun hwnnw, bydd yn rhaid i'r partneriaethau ystyried eu dull o fonitro cynnydd athrawon dan hyfforddiant, o roi adborth iddynt, o adolygu a diwallu eu hanghenion unigol, ac o'u hannog i ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros eu datblygiad eu hunain.

Pump o safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth<sup>29</sup> sydd yna, ac maent yn canolbwyntio ar elfennau hanfodol gwaith pob athro – **addysgeg, cydweithredu, arloesi, dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth**, gyda phwyslais cryf ar addysgeg. Mae pob safon wedi'i rhannu'n elfennau â disgrifyddion sy'n nodi enghreifftiau o sut gallai'r safonau fod yn berthnasol i waith athro, yn dibynnu ar lle mae'r athro hwnnw arni yn ei yrfa a'i rôl.

Mae'r disgrifyddion is ar gyfer addysgu yn disgrifio'r disgwyliadau y dylid eu bodloni er mwyn cael SAC a chwblhau cwrs ymsefydlu statudol yn llwyddiannus. Mae'r disgrifyddion uwch yn rhoi enghreifftiau o arfer cyson effeithiol iawn, ac yn darparu ffocws ar gyfer dysgu proffesiynol gydol gyrfya. Mae yna ddisgrifyddion hefyd ar gyfer rolau arweinyddiaeth ffurfiol.

Wrth asesu cymhwysedd athrawon dan hyfforddiant, bydd yn rhaid i Bartneriaethau eu hasesu yn erbyn y disgrifyddion is felly yn y dyfodol.

Yn atodiad 3, ceir cyngor pellach ar gyfer Partneriaethau AGA o ran dylunio rhaglenni a'r mathau o ddarpariaeth y mae angen iddynt fod ar gael i athrawon dan hyfforddiant er mwyn iddynt arddangos yr holl ddisgrifyddion perthnasol. Yn fras, mae strwythur y cyngor yn dilyn strwythur y model safonau, er, mewn rhai achosion, er mwyn bod yn glir, mae elfennau wedi'u hychwanegu; mewn achosion eraill lle mae yna orgyffwrdd, mae cyngor ar ddwy elfen wahanol wedi'i gyfuno.

---

<sup>29</sup> <http://learning.gov.wales/resources/collections/professional-standards?lang=cy#collection-2>

Mater o farn broffesiynol yw penderfynu a yw'r athro dan hyfforddiant yn bodloni'r safonau ar gyfer SAC, drwy ystyried perfformiad yr hyfforddai yn ei gyfanrwydd a'r holl dystiolaeth berthnasol arall.

Cwestiynau i bartneriaethau AGA eu hystyried mewn perthynas â'r afonau ar gyfer SAC:

- A ydym yn rhoi adborth adeiladol i athrawon dan hyfforddiant ar eu cynnydd ar sail y disgrifyddion perthnasol?
- A yw'r cyfleoedd ar gyfer asesu'n cynnwys yr holl ddisgrifyddion perthnasol?
- A oes digon o dystiolaeth gan yr aseswyr i allu barnu'n gywir ynghylch gallu'r hyfforddeion i fodloni'r disgrifyddion perthnasol mewn amryw o gyd-destunau?
- A ydym yn asesu grwpiau perthnasol o ddisgrifyddion gyda'i gilydd fel na fydd ein dull gweithredu'n un digyswllt?
- Pa ddisgrifyddion perthnasol y gellir dangos tystiolaeth ar eu cyfer yn llwyr neu'n rhannol yn yr ystafell ddosbarth neu leoliadau addysgol eraill?
- Pa ddisgrifyddion perthnasol y gellir eu dangos drwy ddulliau eraill, gan gynnwys aseiniadau ysgrifenedig?
- A ydym yn monitro cynnydd athrawon dan hyfforddiant ac yn addasu'r Rhaglen AGA lle bo angen?
- A yw pob addysgwr athrawon wedi dilyn rhaglen ddatblygu broffesiynol berthnasol i'w alluogi i asesu'n gywir ac yn gyson ar sail y disgrifyddion perthnasol?

## 6.2 Safonau ymsefydlu

Yn ystod y flwyddyn gyntaf o addysgu, bydd yr athro sydd newydd gymhwyso yn dechrau ar broses ymsefydlu statudol<sup>30</sup>, sy'n cyfuno rhaglen ddatblygu broffesiynol, sydd wedi'i theilwra iddo ef yn bersonol, ag asesiad ar sail y disgrifyddion perthnasol o fewn y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Fel AGA, mae ymsefydlu yn gam penodol o ddatblygiad proffesiynol ac yn rhan o'r continwmm o addysg athrawon.

Rhaid i'r partneriaethau sicrhau bod pawb a asesir fel rhai sy'n cyrraedd safonau SAC yn cael gwybod am y trefniadau ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso, ac yn cael help i baratoi ar gyfer eu rôl yn y broses. I'r perwyl hwnnw, tua diwedd rhaglen AGA, caiff athrawon dan hyfforddiant help i gwblhau proffil dechrau gyrfa. Nod y proffil hwn yw rhoi ffocws i athrawon sydd newydd gymhwyso wrth iddynt ystyried sut maent yn datblygu fel athrawon, yr hyn maent wedi'i gyflawni a sut y byddant yn datblygu ac yn gwella. Mae hefyd yn fodd o wneud defnydd o'r syniadau hynny ar ddechrau'r cyfnod ymsefydlu, a'u hystyried ochr yn ochr â ffactorau eraill wrth gynllunio rhaglen ymsefydlu. Mae'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn cysylltu AGA a'r broses ymsefydlu'n agos fel bod profiad proffesiynol yn gallu parhau a chynyddu.

---

<sup>30</sup> Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015

Gwerth y proffil dechrau gyrfa yw'r syniadau a'r drafodaeth am ddatblygiad proffesiynol y mae'n eu cynnal, nid yr hyn a gaiff ei ysgrifennu ar y ffurflen. Ei fwriad yw helpu athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd gymhwyso i wneud cysylltiadau adeiladol rhwng cyfnodau cychwynnol eu gyrfaedd ar eu taith ddysgu gydol oes. Byddant yn datblygu eu dysg fel ymarferwyr myfyriol sy'n defnyddio gwaith ymchwil mewn arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd o gymorth i athrawon sydd newydd gymhwyso ddeall sut y gallant adeiladu ar gynnydd a thystiolaeth mewn perthynas â'u SAC i gyflawni'r gofynion y mae'n rhaid i athrawon eu cyflawni er mwyn cwblhau eu cyfnod ymsefydlu statudol yn llwyddiannus.



## Geirfa

**Achredu/Achrediad:** Mae achredu proffesiynol Rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon yn cydnabod bod y rhaglen yn bodloni gofynion [meini prawf achredu] y corff sy'n derbyn i'r proffesiwn addysgu, hy Cyngor y Gweithlu Addysg yng Nghymru. Mae'n achrediad sydd ar wahân i ddilysiad academaidd y rhaglen gan gorff dyfarnu cymwysterau, hy y SAU/Prifysgol, ond mae'n ei ddilyn.

**Dysgu Cyfunol:** Mae dysgu cyfunol yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio cyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb a dysgu ar-lein.

**Cymwyseddau:** Mae cymwyseddau athrawon yn cynnwys y wybodaeth, y sgiliau, yr agweddau a'r ymagwedd rhyng-gysylltiedig sy'n rhan o waith athrawon, gyda'u datblygiad cyfannol yn dechrau yn ystod yr ymgysylltu â'r rhaglen AGA.

**Fframwaith Cysyniadol:** Mae'r fframwaith cysyniadol yn egluro'r egwyddorion, y credoau a'r gwerthoedd, sy'n cael eu llywio gan ymchwil ac arferion, sy'n ategu'r gwaith o gynllunio a hwyluso'r rhaglen AGA gan bersonél y bartneriaeth SAU/ysgolion.

**Continwmm o Addysg Athrawon:** Mae'r continwmm o addysg athrawon yn dynodi taith dysgu gydol oes athrawon, sy'n ymgorffori AGA, cyflwyniad i'r proffesiwn, y blynyddoedd cynnar a datblygiad proffesiynol parhaus, gyda phontio di-dor drwy gydol yr yrfa addysgu.

**Cymhwysedd Digidol:** Gwybodaeth, sgiliau ac agweddau penodol yw cymhwysedd digidol er mwyn gallu defnyddio technolegau a systemau yn hyderus, yn greadigol ac yn feirniadol.

**Disgrifyddion:** Rhan o'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth sy'n disgrifio'r disgwyliadau y dylid eu bodloni er mwyn cael SAC a chwblhau'r cyfnod ymsefydlu statudol yn llwyddiannus.

**Addysg Gychwynnol Athrawon:** Mae Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yn cyfeirio at y rhaglen ffurfiol gyntaf o baratoi ar gyfer y rôl o fod yn athro, y cam cyntaf ar y continwmm o addysg athrawon.

**Mentor:** Mae mentor yn aelod o staff yr ysgol bartner sy'n arwain, cefnogi, goruchwylio a darparu adborth i athrawon dan hyfforddiant. Bydd y mentor, sy'n uwch aelod o'r ysgol fel arfer, yn ymarferydd profiadol wedi'i hyfforddi naill ai fel arbenigwr cyfnod neu bwnc. Darperir amser wedi'i ddiogelu i fentoriaid gyflawni cyfrifoldebau a dyletswyddau eu rôl.

**Proses Gategoreiddio Genedlaethol:** Mae'r System Genedlaethol ar gyfer Categoriiddio Ysgolion yn ystyried yr arweinyddiaeth, yr addysgu a'r dysgu sy'n digwydd yn ysgolion Cymru, mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ar sail mesurau perfformiad, hunanwerthuso gan ysgolion a chadarnhad o hunanwerthusiad yr ysgol gan Ymgynghorwyr Her y consortia addysg. Mae deilliannau'r data perfformiad a'r hunanwerthuso'n arwain at gategoreiddio pob ysgol, a bennir gan y consortia, ac a drafodir gyda'r ysgol a'i gymedroli gan grŵp safoni a sicrhau ansawdd i sicrhau cysondeb o fewn a thrwy'r consortia.

**Partneriaeth:** Mae model partneriaeth addysg gychwynnol athrawon yn cynrychioli cytundeb ffurfiol rhwng SAU ac ysgolion partner arweiniol, a ategir gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth, lle maent yn cytuno i gydweithredu, fel partneriaid cyfartal, i gynllunio a hwyluso'r rhaglen AGA.

**Ysgolion Partner:** Bydd gan ysgolion partneriaeth arweiniol ran amlwg yn y broses o recriwtio athrawon dan hyfforddiant, datblygu'r cwricwlwm AGA a darparu cyfleoedd datblygu ar gyfer staff SAU. Byddant yn cyfrannu at arweinyddiaeth o fewn y bartneriaeth ac yn cyfrannu'n llawn at y gwaith o sicrhau ansawdd a hunanwerthuso pob rhaglen. Mae gan bob ysgol bartner rôl allweddol o ran galluogi athrawon dan hyfforddiant i addysgu, ymchwilio, myfyrio a gwerthuso; ni ddylid eu hystyried fel lleoliadau 'ymarfer addysgu' yn unig.

**Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth:** Safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon ac arweinwyr ysgolion sy'n canolbwyntio ar elfennau hanfodol gwaith pob athro – addysgeg, cydweithredu, arweinyddiaeth, arloesi a dysgu proffesiynol.

**Disgybl/Myfyriwr:** Plant a phobl ifanc yn yr ysgol.

**Consortia:** Lluniwyd y pedwar consortiwm ysgol yng Nghymru i helpu awdurdodau lleol i leihau nifer eu gwasanaethau gwella ysgolion o 22 i bedwar ac i ailwampio swyddogaethau gwella ysgolion lleol ar sail pedwar consortiwm rhanbarthol ac arweinwyr y systemau hynny. Mae gweithio drwy gyfrwng consortia yn ychwanegu gwerth i'r hyn y gall awdurdodau lleol ei gyflawni ar eu pen eu hunain, gan ganiatáu iddynt rannu arferion da, gwybodaeth a sgiliau, gwneud y mwyaf o'u cryfderau lleol a meithrin capasiti. Mae'r pedwar Consortiwm Addysg ffurfiol yng Nghymru yn cwmpasu: y Gogledd; y De-orllewin a'r Canolbarth; Canol De Cymru; a'r De-ddwyrain.

**Athro dan hyfforddiant:** Mae athro dan hyfforddiant, y cyfeirir ato/ati weithiau fel "hyfforddai", yn berson sy'n dilyn rhaglen addysg gychwynnol athrawon.

**Addysgwyr Athrawon:** Addysgwyr athrawon yw personél SAU ac ysgolion sy'n cyfrannu at y gwaith o hwyluso rhaglen AGA.

**Gwerthoedd ac ymagweddau:** Egwyddorion a ddylai symbylu pawb sy'n gweithio gyda dysgwyr. Rhan o fodel y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth

## Cyfeiriadau

BERA: RSA (2014). *The role of research in teacher education: Reviewing the evidence. Interim report.* Llundain: BERA; <https://www.thersa.org/discover/publications-and-articles/reports/the-role-of-research-in-teacher-education-reviewing-the-evidence/>

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol llwyddiannus - Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru;* <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf>

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2014). *Yr hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparwr addysg yng Nghymru: canllaw i ysgolion;* <http://www.equalityhumanrights.com/publication/what-equality-law-means-you-education-provider-wales>

J. Furlong (2015). *Addysgu Athrawon Yfory;* <http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/teaching-tomorrows-teachers/?skip=1&lang=cy>

M. Kools ac L. Stoll (2016). *What Makes a School a Learning Organisation? A Guide for Policy Makers, School Leadership and Teachers.* OECD.

OECD (2012). *Strong performers and successful reformers in education: Lessons from PISA for the United States;* <http://www.oecd.org/pisa/keyfindings/pisa-2012-results-united-states.htm>

R.Bishop a T. Glynn (2003). *Culture Counts: Changing Power Relationships in Education.* Zed Books, Llundain.

S. Brookfield (2001). *Understanding and Facilitating Adult Learning,* Gwasg y Brifysgol Agored, Buckingham.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003). *Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig;* <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/developing-the-curriculum-cymreig/?skip=1&lang=cy>

Llywodraeth Cymru (2014). *Cymwys am Oes: Cynllun gwella addysg;* <http://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/qualified-for-life-an-educational-improvement-plan/?skip=1&lang=cy>

Llywodraeth Cymru (2015). *Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am oes;* <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?skip=1&lang=cy>

Llywodraeth Cymru (2017). *Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion: Meini prawf drafft ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru a'r cynnig i Gyngor y Gweithlu Addysg achredu addysg gychwynnol athrawon;* <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/achredu-addysg-gychwynnol-i-athrawon>

Llywodraeth Cymru (2016). *Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol - canllawiau;* <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/160831-dcf-guidance-en-v2.pdf>

## **Atodiad 1: Rôl Estyn ac arolygu AGA yng Nghymru**

Mae gan Estyn gyfraniad unigryw i'w wneud i gynnal a gwella ansawdd pob math o ddarpariaeth addysg yng Nghymru, gan gynnwys addysg gychwynnol athrawon (AGA). Mae ganddo ddwy ffordd o wneud hyn; yn gyntaf, drwy arolygu'r ddarpariaeth AGA yn uniongyrchol ei hun; yn ail, drwy arolygu ysgolion lle mae AGA yn digwydd. Ar ôl i'r gweithdrefnau achredu newydd a amlinellir yn y ddogfen hon gael eu rhoi ar waith, bydd rôl Estyn mewn perthynas ag AGA yn parhau, gyda rhai addasiadau i weithdrefnau cyfredol.

### **Arolygu'r ddarpariaeth AGA**

Bydd arolygiadau Estyn o ddarpariaeth AGA yn cael eu cynnal bob pum mlynedd, yn ddelfrydol flwyddyn cyn ail-achredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg er mwyn i adroddiadau arolygu gyfrannu at ymarferion achredu. Bydd arolygiadau'n cael eu cynnal drwy ddefnyddio fframwaith a chanllawiau arolygu diwygiedig sy'n rhoi ystyriaeth benodol i fframwaith achredu Cyngor y Gweithlu Addysg. Bydd yr arolygiad yn cwmpasu cyfraniad pob partner mewn perthynas â'r rhan y maent yn ei chwarae yn y rhaglen AGA. Felly, bydd yn ystyried lefelau cyfrifoldeb cryfach ysgolion, gan gynnwys eu rôl yn y gwaith o alluogi athrawon dan hyfforddiant i fodloni Safonau Proffesiynol. Bydd hefyd yn rhoi sylw i rôl ysgolion yn y gwaith o gynllunio a datblygu'r broses o arwain a rheoli'r rhaglen AGA ar y cyd.

Caiff canlyniadau'r arolygiad eu hadrodd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac i Bwyllgor Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol ("y Bwrdd") Cyngor y Gweithlu Addysg.

Yn ogystal â hyn, bydd Estyn yn ymweld â darparwyr AGA bob blwyddyn. Bydd dau ddiben penodol i'r ymweliadau hyn, yn dibynnu ar statws achredu'r darparwr.

Pan fo rhaglen benodol wedi cael ei hachredu yn ddarostyngedig i amodau, drwy'r Bwrdd, gallai'r arolygiad fod yn un ffurfiol, gyda ffocws penodol ar y materion hynny a nodwyd fel rhai sydd angen eu datblygu ymhellach. Bydd Estyn yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd a fydd yna'n ystyried a yw'r amodau wedi'u bodloni ai peidio. Unwaith y bydd rhaglen wedi bodloni'r holl amodau a osodwyd drwy'r Bwrdd, bydd Estyn yn cynnal ymweliadau 'monitro' blynyddol. Cynhelir yr ymweliadau hyn ar sail golegol, gan adrodd i'r Bwrdd. Os bydd gan Estyn bryder difrifol yn ystod yr ymweliadau hyn, gall Estyn ymgymryd ag arolygiad llawn.

Gall Estyn gynnal un math arall o arolygiad hefyd: 'Adolygiadau Thematig'. Bydd adolygiadau o'r fath, y gellir eu cyfyngu i ddarpariaeth AGA neu gyfuniad o AGA a darpariaeth ysgol, yn canolbwyntio ar faterion penodol fel addysgu llythrennedd cynnar neu ymateb i anghenion dysgu ychwanegol. Ni fydd Estyn yn adrodd ar ei gasgliadau o'r adolygiadau hyn yn ffurfiol i'r Bwrdd, ond byddent ar gael er mwyn cyfrannu at unrhyw adolygiad parhaus o'r Meini Prawf Achredu.

### **Arolygu ysgolion lle cynhelir AGA**

Fel y nodwyd yn yr adroddiad 'Addysgu Athrawon Yfory - opsiynau ynglŷn â dyfodol AGA yng Nghymru', mae gallu Estyn i gydnabod yn llawn gyfraniad ysgolion at AGA yn ystod arolygiad o'r ysgol yn fater allweddol yn natblygiad darpariaeth yn y dyfodol. Bydd hyn yn bosibl o hyn allan o dan drefniadau newydd ar gyfer arolygiadau ysgolion sy'n cael eu datblygu gan Estyn ar hyn o bryd.

O fis Medi 2017, mae Estyn yn cyflwyno trefniadau arolygu newydd, mwy hyblyg, i ysgolion, gan gynnwys model arolygu craidd cyffredin. O dan y trefniadau hyn, byddai arolygwyr Estyn yn ystyried effaith datblygiad proffesiynol (gan gynnwys cyfraniadau i AGA) ar effeithlonrwydd staff ac ar ddatblygiad y ddarpariaeth.

Yn ogystal â hyn, o dan 'arweinyddiaeth a rheolaeth', byddai Estyn yn ystyried pa mor dda mae arweinwyr yn gweithio gyda darparwyr eraill i ddatblygu diwylliant o gydweithredu a gwella o fewn ac ar draws darparwyr. Lle bo'n berthnasol, byddai hyn yn cynnwys arolygu trefniadau'r ysgol ar gyfer AGA.

Bydd y model newydd yn cynnwys ffocws thematig hefyd. Bob blwyddyn, bydd Estyn yn ystyried themâu mewn meysydd o bwysigrwydd cenedlaethol i ddarparu darlun Cymru gyfan ar gyfer yr adroddiad blynyddol ac fel sail i adroddiadau thematig a chyingor i Lywodraeth Cymru. Gallai'r ffocws thematig ddarparu cyfleoedd i ysgolion sy'n darparu addysg gychwynol athrawon ddangos sut maent yn cyfrannu at y ffocws cenedlaethol drwy ddatblygiad proffesiynol athrawon newydd pan fo'n berthnasol.

## Atodiad 2: Gofynion derbyn ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru<sup>31</sup>

I gael eu derbyn, mae'n rhaid i bob darparwr cwrs AGA achrededig fod yn fodlon bod gan ddarpar athrawon dan hyfforddiant:

- yr addaswydd, y gallu a'r gwydnwch i fodloni'r deilliannau SAC gofynnol erbyn diwedd eu rhaglen AGA;
- eu bod yn meddu ar y priodweddau personol a deallusol priodol i fod yn ymarferwyr rhagorol
- eu bod wedi cyflawni'r cymwysterau gofynnol i gael eu derbyn ar gyfer y cyfnod astudio/pwnc, gan gynnwys safon sy'n gyfwerth â gradd B yn yr arholiad TGAU Saesneg a/neu Gymraeg ac mewn Mathemateg i gefnogi Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Llywodraeth Cymru;
- ar gyfer rhaglenni AGA cyfnod sylfaen/ystod oedran cynradd, eu bod wedi cyflawni safon sy'n gyfwerth â gradd C yn yr arholiad TGAU mewn pwnc gwyddoniaeth
- eu bod wedi'u fetio i sicrhau nad oes ganddynt gefndir troseddol a allai eu hatal rhag gweithio gyda phlant neu bobl ifanc sy'n agored i niwed, neu fel ymarferwyr addysg; a sicrhau nad yw athrawon dan hyfforddiant wedi'u gwahardd yn y gorffennol rhag addysgu neu weithio gyda dysgwyr; (mae diogelu'r plant yn ofyniad cyfreithiol);
- eu bod yn gallu darllen yn effeithiol a chyfathrebu'n glir a chywir drwy gyfrwng y Saesneg a/neu Gymraeg, yn llafar ac yn ysgrifenedig
- eu bod yn cael eu hasesu wrth gael eu derbyn fel unigolion sydd â sgiliau swyddogaethol personol priodol mewn llythrennedd a rhifedd sy'n gymwys i addysgu proffesiynol a chyd-destun dysgu
- os ar gyrsiau ôl-radd AGA, byddant yn meddu ar radd gyntaf gan sefydliad addysg uwch yn y Deyrnas Unedig neu gymhwyster cyfwerth<sup>32</sup>
- fel rhan o'r gweithdrefnau dethol, ac ar y cyd ag ysgolion partner, eu bod wedi cymryd rhan mewn profion addaswydd a chyfweliadau unigol a grŵp i asesu eu haddaswydd i fod yn athrawon rhagorol.

---

<sup>31</sup> Mae gofynion derbyn a dethol myfyrwyr yn safonau gofynnol. Efallai y bydd gan ddarparwyr AGA achrededig unigol feini prawf ychwanegol y byddant am eu defnyddio a gallant wneud hynny cyn belled â bod y meini prawf gofynnol yn cael eu bodloni neu y rhagorir arnynt.

<sup>32</sup> Bydd angen i ymgeiswyr sydd â Gradd Sylfaen ategu'r cymhwyster hwn gydag o leiaf 60 credyd ar Lefel 3 AU.

## Atodiad 3: Safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig – mwy o gyngor i Bartneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon wrth ddylunio rhaglenni

### Rhagymadrodd

Yn 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth<sup>33</sup>. Mae'r safonau newydd hyn yn wahanol i unrhyw fodelau blaenorol a ddefnyddiwyd gan y proffesiwn mewn nifer o ffyrdd allweddol. Yn gyntaf, maent yn seiliedig ar gyfres o werthoedd ac ymagweddau y mae disgwyl i bob athro eu harddangos. Yn ail, maent yn ymwneud â datblygiad, ac mae fframwaith cyffredin iddynt sy'n cwmpasu gyrfya gyfan athro o statws athro cymwysedig i arferion effeithiol iawn, gan gynnwys arweinyddiaeth ffurfiol. Yn olaf, maent wedi'u strwythuro'n wahanol iawn.

Mae yna bum safon broffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth sydd â phwyslais cryf ar addysgeg, sef:

- addysgeg (mireinio addysgu; hybu dysgu; dylanwadu ar ddysgwyr)
- cydweithredu
- dysgu proffesiynol
- arloesi
- arweinyddiaeth.

Mae pob un o'r safonau hyn wedi'u rhannu'n nifer o elfennau gwahanol er mwyn gallu ystyried y safonau yn fanylach, gan helpu'r broses asesu a dysgu proffesiynol. Mae i bob elfen ddisgrifydd sy'n rhoi enghraifft o sut i gymhwyso pob safon, gan gynnwys y dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn dyfarnu SAC. Wrth benderfynu ar gymhwysedd athrawon dan hyfforddiant, bydd partneriaethau, felly, yn gorfod eu hasesu yn erbyn y 32 disgrifydd hyn.

Nod y ddogfen hon yw rhoi mwy o gyngor i bartneriaethau am y mathau o ddarpariaeth y mae angen iddynt eu cynnig i athrawon dan hyfforddiant os ydynt i allu arddangos yr holl ddisgrifyddion perthnasol. Mae strwythur y cyngor yn dilyn strwythur y model safonau yn fras, er, mewn rhai achosion, er mwyn bod yn eglur, mae rhai elfennau wedi cael eu hychwanegu; mewn achosion eraill lle mae yna orgyffwrdd, mae cyngor ar ddwy elfen wahanol wedi'i gyfuno.

Er bod y cyngor wedi'i nodi fel cyfres o elfennau gwahanol, mae'n bwysig pwysleisio bod angen deall a defnyddio'r rhain mewn ffordd gyfannol, yn union fel addysgu. Ni fwriedir iddynt gael eu defnyddio fel rhestr wirio o gymhwyseddau addysgu. Yn hytrach, maent i'w hystyried yn fframwaith integredig sy'n cwmpasu'r mathau o ddarpariaeth y bydd angen i bartneriaethau eu cynnig i'w hathrawon dan hyfforddiant os ydynt i fodloni'r safonau proffesiynol newydd ar lefel SAC.

Yn olaf, dylid cofio bod y safonau i gyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at bedwar diben y cwricwlwm; drwyddynt, mae disgwyl i fyfyrwyr hefyd ddatblygu ac arddangos eu hymrwymiad i'r gwerthoedd a'r ymagweddau cyffredinol a amlinellir yn y model safonau.

---

<sup>33</sup> <http://learning.gov.wales/resources/collections/professional-standards?lang=cy#collection-2>

## **Addysgeg**

### **Mireinio addysgu... i sicrhau arferion effeithiol iawn a pharhaus**

Yn y cyngor hwn ar gyfer partneriaethau, rhoddir sylw i addysgeg mewn tair adran ryng-gysylltiedig - mireinio addysgu, hybu dysgu a dylanwadu ar ddysgwyr. Mae mireinio addysgu, yn benodol, yn edrych ar drefnu dysgwyr a meithrin arferion ac ymddygiadau dysgu sy'n cyflawni pedwar diben y cwricwlwm:

- creu dysgwyr uchelgeisiol a galluog
- unigolion iach a hyderus
- cyfranwyr mentrus a chreadigol
- dinasyddion egwyddorol a gwybodus.

Yn y cyd-destun hwnnw, dylai partneriaethau gynnwys y canlynol yn eu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA):

- deall dysgu
- rheoli'r amgylchedd dysgu
- asesu
- cofnodi a chyflwyno adroddiadau
- gwahaniaethu
- cynnwys partneriaid yn y broses ddysgu.

#### **Deall dysgu**

Dylai partneriaethau roi cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol ddiweddaraf yn ogystal â rhoi cipolwg ymarferol iddynt ar sut mae plant a phobl ifanc yn datblygu ac yn dysgu. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- datblygiad gwybyddol, cymdeithasol ac emosïynol plant a phobl ifanc
- sut mae plant a phobl ifanc yn dysgu
- y ffactorau sy'n gallu hyrwyddo neu rwystro dysgu effeithiol, gan gynnwys effaith cefndir, hunaniaeth, gwerthoedd a chredoau dysgwyr
- yr angen i ddarparu ar gyfer datblygiad holistaidd y dysgwr
- pwysigrwydd lles er mwyn dysgu'n effeithiol.

#### **Rheoli'r amgylchedd dysgu**

Dylai partneriaethau roi cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol ddiweddaraf yn ogystal â'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen er mwyn sefydlu amgylchedd dysgu gofalgaf o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar bedwar diben y cwricwlwm. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- gwybod am a deall pwysigrwydd perthynas dda rhwng yr athro a'r dysgwr wrth gyflawni pedwar diben y cwricwlwm
- deall a defnyddio strategaethau sy'n hyrwyddo ac yn cynnal ymddygiad da, yn unol â pholisi'r ysgol
- ymwybyddiaeth o lesiant disgyblion; deall ac atal bwlio a phwysau negyddol gan gyfoedion; a gwybodaeth am faterion a gweithdrefnau diogelu.

#### **Asesu**

Dylai partneriaethau roi cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol ddiweddaraf yn ogystal â'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen er mwyn cynnal a defnyddio asesiadau yn effeithiol. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:



- deall, defnyddio a gwerthuso amrywiaeth o strategaethau asesu ffurfiannol a chyfunol sy'n briodol i anghenion pob dysgwr a gofynion y cwricwlwm
- mynd ati mewn ffordd systematig a beirniadol i ystyried y dystiolaeth asesu er mwyn pwysu a mesur a mireinio'r addysgu a'r dysgu a llywio'r gwaith cynllunio
- cyfleu'r wybodaeth asesu yn briodol i ddysgwyr, eu rhieni/gofalwyr a chydathrawon, gan gynnwys cynorthwywyr dysgu.

### **Cofnodi a chyflwyno adroddiadau**

Dylai partneriaethau roi cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddiweddaraf yn ogystal â'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen er mwyn cofnodi, cyflwyno adroddiadau a defnyddio asesiadau a data perfformiad eraill yn effeithiol yn eu haddysgu. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- cofnodi asesiadau a data perfformiad eraill yn gywir ac yn briodol yn unol â gweithdrefnau'r ysgol
- defnyddio data dosbarthiadau a data'r ysgol i nodi cryfderau dysgwyr a'u hanghenion dysgu yn y dyfodol
- cyfleu data asesu a data perfformiad eraill yn briodol i ddysgwyr, eu rhieni/gofalwyr a chydathrawon, gan gynnwys cynorthwywyr dysgu.

### **Gwahaniaethu**

Dylai partneriaethau roi cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol ddiweddaraf yn ogystal â'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen er mwyn gwahaniaethu wrth addysgu mewn ffyrdd sy'n ystyried anghenion pob dysgwr ac sy'n cefnogi eu datblygiad<sup>34</sup>. Ymhlith elfennau eraill, dylid rhoi sylw i bwysigrwydd:

- parchu urddas pob dysgwr
- disgwyliadau uchel ar gyfer pob dysgwr
- pennu tasgau priodol a heriol ar gyfer pob dysgwr
- deall a defnyddio data perfformiad dosbarthiadau a pherfformiad yr ysgol yn effeithiol wrth gynllunio ac wrth addysgu.

### **Cynnwys partneriaid yn y broses ddysgu**

Dylai partneriaethau roi cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol ddiweddaraf yn ogystal â rhoi cipolwg ymarferol iddynt ar bwysigrwydd cynnwys rhieni, gofalwyr, partneriaid eraill a rhanddeiliaid i gefnogi'r dysgu. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- deall gwerth cyfraniadau rhieni/gofalwyr ac eraill wrth gyflawni pedwar diben y cwricwlwm
- arsylwi, ymarfer a gwerthuso sgiliau priodol i gyfathrebu â rhieni/gofalwyr ac eraill.

### **Hyrwyddo dysgu... drwy gymhwyso gwybodaeth am y pwnc a disgyblaeth yn effeithiol**

Hyrwyddo dysgu yw'r ail adran ym maes addysgeg. Mae hyrwyddo dysgu yn ymwneud â chymhwyso gwybodaeth am y pwnc a pharhau i sefydlu'r pedwar diben ar gyfer dysgwyr. I'r perwyl hwnnw, dylai partneriaethau fynd i'r afael â'r canlynol gydag athrawon dan hyfforddiant: pedwar diben y cwricwlwm; gwybodaeth am bynciau o fewn meysydd dysgu; profiadau dysgu chyfunol; cyd-destunau go iawn; dilyniant wrth ddysgu a themâu trawsgwricwlaidd.

---

<sup>34</sup> Mae 'pob dysgwr' yn cynnwys, er enghraifft: dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, dysgwyr mwy abl a dysgwyr ag anghenion iaith penodol, yn enwedig y rheini sy'n defnyddio Cymraeg/Saesneg fel iaith ychwanegol.

## **Pedwar diben dysgu**

Dylai partneriaethau roi cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol ddiweddaraf, a'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i sefydlu pedwar diben y cwricwlwm yn eu gwaith cynllunio, paratoi ac addysgu. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- gwybodaeth am resymeg pedwar diben y cwricwlwm yng Nghymru a dealltwriaeth ohoni
- gwybodaeth am ofynion priodol y cwricwlwm a'u perthnasedd i bedwar diben y cwricwlwm, a dealltwriaeth o'r gofynion hyn
- profiad o gynllunio a chyflwyno gwersi a chyfresi o wersi a ddyluniwyd i gyflawni pedwar diben y cwricwlwm
- ymgyswrtio â gofynion cwricwlwm cyfnodau dysgu blaenorol a dilynol.

## **Manteisio ar ddisgyblaethau pynciau mewn meysydd dysgu**

Dylai partneriaethau roi cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol ddiweddaraf, a'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i fanteisio ar ddisgyblaethau pynciau mewn meysydd dysgu. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- datblygu gwybodaeth ddiogel am bob pwnc perthnasol
- gwybod am y ffurfiau mwyaf priodol o wybodaeth addysgegol sy'n berthnasol i addysgu'r pwnc hwnnw a deall y ffurfiau hynny
- defnyddio'r wybodaeth hon wrth gynllunio ac addysgu i gyflawni'r pedwar diben, gan gynnwys dysgu trawsgwricwlaidd
- defnyddio dulliau effeithiol o sicrhau cymhwysedd digidol, llythrennedd a rhifedd er mwyn hwyluso'r broses o gyflawni pedwar diben y cwricwlwm.

## **Profiadau dysgu cyfunol**

Dylai partneriaethau roi cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol ddiweddaraf, a'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i ddewis, defnyddio a 'chfuno' amrywiaeth o ddulliau addysgu arloesol. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- ystod eang o ddulliau addysgegol
- amrywiaeth eang o adnoddau addysgu a dysgu
- amrywiaeth eang o leoliadau (gweithdai, awyr agored, theatr ac ati) a thechnolegau digidol.

## **Cyd-destunau dilys go iawn**

Dylai partneriaethau roi cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol ddiweddaraf, a'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i ddewis a defnyddio cyd-destunau dilys go iawn ar gyfer dysgu fel rhan naturiol o'r profiad dysgu.

Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- cynllunio creadigol, llawn dychymyg i sicrhau cysylltiadau â'r byd go iawn ac y gellir ei gymhwyso i'r byd go iawn
- sicrhau bod y cysylltiadau hynny yn berthnasol ac yn ystyrlon i ddysgwyr.

## **Dilyniant mewn dysgu**

Dylai partneriaethau roi cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol ddiweddaraf, a'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i gynllunio ar gyfer dilyniant dros amser. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- deall gofynion y cwricwlwm ar gyfer y cyfnod dysgu perthnasol yn ogystal â gofynion cyfnodau blaenorol a dilynol

- nodi a chynllunio dilyniant a'r camau nesaf ar gyfer y tymor byr/canolog
- gwerthuso sut mae'r dysgu yn caniatáu i ddysgwyr adeiladu ar wybodaeth flaenorol a symud tuag at ddeilliannau dysgu penodol
- defnyddio asesiadau a thystiolaeth arall o'r ysgol a'r dosbarthiadau yn effeithiol wrth gynllunio ar gyfer dilyniant pellach.

### **Dysgu a chysylltiadau trawsgwricwlaidd**

Dylai partneriaethau roi cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddiweddaraf, a'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i ddatblygu dysgu a chysylltiadau trawsgwricwlaidd, o fewn meysydd dysgu a phrofiad a rhwng un a'r llall.

Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- datblygu dealltwriaeth o egwyddorion dylunio'r cwricwlwm, gan gynnwys y cyddestunau ar gyfer dysgu, a datblygu'r cwricwlwm yng Nghymru
- cynllunio, addysgu a gwerthuso profiadau dysgu trawsgwricwlaidd
- cynllunio i wneud cysylltiadau perthnasol, ystyrlon â meysydd dysgu a phrofiad eraill o fewn y cwricwlwm
- deall sut mae dysgu trawsgwricwlaidd yn digwydd mewn cyfnodau dysgu eraill.

### **Dylanwadu ar ddysgwyr – meithrin ymagweddau cadarnhaol mewn dysgwyr**

Mae'r cyngor i bartneriaethau o ran dylanwad athrawon dan hyfforddiant ar ddysgwyr a meithrin ymagweddau cadarnhaol mewn dysgwyr yn ddull aml-haen ar sail perthynas o ymddiriedaeth a pharch rhwng yr athro dan hyfforddiant a'i ddysgwyr: gosod her a phennu disgwyliadau ar gyfer dysgwyr; gwrando ar ddysgwyr; darparu cyfleoedd i ddysgwyr arwain y dysgu; annog ymdrechion dysgwyr a'u gallu i oresgyn problemau; ystyried ochr yn ochr â'r dysgwyr ac ystyried gan y dysgwyr; codi ymwybyddiaeth dysgwyr o ddeilliannau dysgu a sut maent yn effeithio ar eu boddhad. Yn hyn oll, gall yr athro dan hyfforddiant ymgysylltu â dysgwyr unigol, gyda grwpiau bach o ddysgwyr a/neu gyda'r dosbarth cyfan, fel y bo'n briodol.

### **Her a disgwyliadau**

Dylai partneriaethau roi cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol ddiweddaraf yn ogystal â'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i ysgogi ac ysbrydoli dysgwyr. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- pennu disgwyliadau uchel a thargedau clir ar gyfer dysgwyr
- defnyddio dulliau cyfathrebu (cwestiynu, esbonio, modelu), gan gynnwys amrywiol gyfryngau, i gymell a chynnal cynnydd pob dysgwr.

### **Gwrando ar ddysgwyr**

Dylai partneriaethau roi cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol ddiweddaraf yn ogystal â'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i wrando ar ddysgwyr (yn unigol, fel grŵp neu ddosbarth cyfan). Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- darparu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan weithredol yn eu dysgu eu hunain
- ysgogi dysgwyr i gymryd rhan mewn trafodaeth a phenderfynadau ynghylch beth i'w ddysgu a sut
- gwrando ar drafodaeth y dysgwyr a hwyluso'r drafodaeth honno. Dylai rhai o'r materion a drafodir fod yn benagored ac yn gymhleth, yn ddadleuol neu'n emosiynol.

### **Dysgwyr yn arwain dysgu**

Dylai partneriaethau roi cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol ddiweddaraf yn ogystal â'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i annog dysgwyr i ystyried eu dysgu eu hunain. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- cyfleu diben y dysgu a rhoi esboniadau ar y lefel(au) b/priodol i bob dysgwr
- annog dysgwyr i asesu eu gwaith eu hunain dros amser a chydabod gwelliant, ar sail tystiolaeth
- darparu canllawiau a chyfleoedd ar gyfer gwerthuso cyfoedion lle mae dysgwyr yn edrych ar waith ei gilydd ac yn ymateb iddo, gan ddatblygu eu sgiliau dadansoddi beirniadol.

### **Ymdrech barhaus gan ddysgwyr a'u gallu i oresgyn problemau**

Dylai partneriaethau roi cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol ddiweddaraf yn ogystal â'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i ddatblygu hunangymhelliad a hunangyfeiriad dysgwyr. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- trefnu a rheoli amgylcheddau dysgu effeithiol lle gall dysgwyr ddatblygu sgiliau annibyniaeth a hunangyfeiriad
- cynnwys dysgwyr wrth bennu amcanion dysgu a chynllunio sut y cyflawnir hyn
- meithrin dyfalbarhad dysgwyr a'u cymell i weld problemau fel heriau, nid rhwystrau, ac i ofyn am gymorth pan fo angen
- trafod gyda dysgwyr yr hyn sy'n dod â mwynhad, boddhad personol a hapusrwydd iddynt wrth ddysgu.

### **Ystyried y broses ddysgu**

Dylai partneriaethau roi cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol ddiweddaraf yn ogystal â'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i annog dysgwyr i ystyried a gwerthuso ymddygiadau a rhagolygon dysgu. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- sut mae siarad am ddysgu yn helpu dysgwyr i fynd ati mewn ffordd ymwybodol i fonitro ac ystyried yr hyn maent yn ei ddysgu
- defnyddio ystod o strategaethau asesu ar gyfer dysgu i helpu dysgwyr i ystyried a gwerthuso eu cynnydd tuag at eu hamcanion dysgu.

### **Deilliannau dysgu a lles**

Dylai partneriaethau roi cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol ddiweddaraf yn ogystal â'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i godi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r rhyngberthynas rhwng dysgu a lles. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- deall pwysigrwydd lles dysgwyr er mwyn dysgu'n effeithiol
- helpu dysgwyr i ystyried a chydabod y ffaith bod gwelliant yn eu dysgu yn cynyddu eu boddhad ac yn rhoi hyder iddynt yn eu gallu i gyflawni mwy.

## Cydweithredu

Mae cydweithredu'n rhan hanfodol o waith athrawon. Dylai partneriaethau ddarparu ystod o gyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant gydweithredu ag eraill ac arsylwi ar eraill yn gweithio gyda'i gilydd, lle bo'n ymarferol. Bydd y diwylliant o gydweithredu sydd mewn ysgol yn dylanwadu ar yr athrawon dan hyfforddiant. Dylai partneriaethau hefyd arwain drwy esiampl drwy fodelu dull cydweithredol o weithio. Yn benodol, dylai rhaglenni alluogi athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'n raddol yn y meysydd canlynol: ceisio cyngor a chymorth sy'n arwain at welliant i ddysgwyr; gweithio gyda chydweithwyr yn yr ysgol a'r gymuned ehangach; a chefnogi a datblygu eraill.

### **Ceisio cyngor a chymorth a galluogi gwelliant**

Dylai partneriaethau annog, modelu a darparu cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant elwa ar gyngor gan gydweithwyr (athrawon, tiwtoriaid, cynorthwyr dosbarth, cymheiriaid) er mwyn datblygu arferion addysgu effeithiol a rheoli ymddygiad. Ymhlith elfennau eraill, gallai hyn gynnwys:

- addysgu fel rhan o dîm
- cynllunio ar y cyd
- mabwysiadu proses ymholi ar gyfer arferion proffesiynol a chymryd rhan mewn deialog broffesiynol
- dangos ymrwymiad proffesiynol i geisio a derbyn cyngor adeiladol a gweithredu arno wrth fynd ati i fodloni her newydd
- gwerthuso arferion yn yr ystafell ddosbarth
- adolygu cynlluniau yn seiliedig ar ddata gwerthuso ac ymgynghori.

### **Gweithio gyda chydweithwyr yn yr ysgol a chefnogi a datblygu eraill**

Dylai partneriaethau ddarparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar athrawon dan hyfforddiant i weithio'n effeithiol gyda chydweithwyr yn yr ysgol ac aelodau o gymuned ehangach yr ysgol. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- datblygu perthnasau o ansawdd uchel yn y dosbarth a hefyd gyda chydweithwyr, rhieni/gofalwyr ac asiantaethau partner yn y gymuned ddysgu ehangach pan fydd cyfleoedd yn codi, a hynny er lles pob dysgwr
- cymryd rhan, lle'n bosibl, yn y prosesau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm, cynllunio gwelliannau, ac adolygu a datblygu proffesiynol yn yr ysgol
- cymryd rhan weithredol mewn dysgu proffesiynol gydag eraill, gan fyfyrion mewn grŵp a mynd ati i ddysgu a datblygu arferion
- rhannu dysgu a datblygiad proffesiynol â chydweithwyr er mwyn gwella perfformiad a deilliannau pob dysgwr.

## Dysgu proffesiynol

Mae'r cyngor ar gyfer Partneriaethau Addysg Gychwynol Athrawon (AGA) o ran dysgu proffesiynol athrawon dan hyfforddiant yn cwmpasu ystod o faterion. Mae'r rhain yn cynnwys bod angen i athrawon dan hyfforddiant ddarllen yn ehangach a dangos dealltwriaeth fwyfwy hyderus o theori ac ymchwil sy'n berthnasol i'w harferion dyddiol; deall sut all ymchwil cydweithredol ar raddfa fach (gan gynnwys ymchwil weithredu/ymholi gan ymarferydd) helpu i ddatblygu arferion; deall a defnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol i gefnogi eu dysgu proffesiynol; a dangos yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol i fodloni gofynion Strategaeth y Gymraeg.

### Deunydd darllen ehangach ac ymchwil

Dylai partneriaethau ddarparu cyfleodd i athrawon dan hyfforddiant:

- ddarllen a thrafod ystod eang o theori ac ymchwil sy'n berthnasol i'w harferion dyddiol yn yr ysgol, gan gynnwys ymchwil ar ddysgu, addysgeg, asesu, a datblygiad plant a'r glasoed
- dysgu sut i werthuso ymchwil addysgol yn feirniadol a dechrau barnu ansawdd yr ymchwil a darllenir ganddynt
- gwybod sut i gyrchu a chymhwyso canfyddiadau perthnasol o ymchwil addysgol a defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu i herio a gwella eu harferion
- deall rôl ymchwil cydweithredol ar raddfa fach, gan gynnwys ymchwil weithredu/ymholi gan ymarferwyr, o ran datblygu arferion.

### Dysgu proffesiynol parhaus

Dylai partneriaethau ei gwneud yn ofynnol i athrawon dan hyfforddiant ddefnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol fel mater o arfer a'u cefnogi i wneud hynny. Dylid defnyddio'r pasbort i:

- gofnodi a myfyrio ar brofiadau proffesiynol a nodi'r camau nesaf ar gyfer datblygu
- cofnodi a myfyrio ar adborth gan eraill (tiwtoriaid, mentoriaid, cymheiriaid)
- cysylltu theori ag arferion
- cefnogi a chofnodi datblygiad sgiliau personol gan gynnwys sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
- dangos ymrwymiad i ddysgu proffesiynol parhaus.

### Sgiliau yn y Gymraeg

Dylai partneriaethau ddarparu cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant ddatblygu a dangos yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i fodloni gofynion Strategaeth y Gymraeg, gan gynnwys:

- datblygu eu sgiliau personol eu hunain yn raddol o ran defnyddio'r Gymraeg
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg
- hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg
- gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## Arloesi

### **Datblygu technegau newydd a chynnig arbenigedd**

Dylai partneriaethau annog a chefnogi athrawon dan hyfforddiant i:

- ddefnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu o ddeunydd darllen ac ymchwil, gan gynnwys eu hymchwil eu hunain, i herio a llywio eu harferion
- datblygu, cymhwyso a gwerthuso strategaethau addysgu a dysgu newydd, bod yn greadigol a chymryd risgiau lle'n briodol
- rhannu arferion da â chydweithwyr ac athrawon dan hyfforddiant eraill.

### **Gwerthuso effaith newidiadau i arferion**

Dylai partneriaethau annog a chefnogi athrawon dan hyfforddiant i:

- gasglu data a deall gwerth ystod o ddata a thystiolaeth arall wrth werthuso effaith newidiadau i ymarferion
- deall sut i ddehongli data a thystiolaeth arall o ddeilliannau dysgu
- meddwl yn feirniadol, dadansoddi, a datrys problemau, fel unigolyn ac aelod o dîm
- ymgysylltu â mentoriaid, cydweithwyr addysgu, tiwtoriaid a chymheiriaid er mwyn cael cymorth a chynghor, a gwerthuso a myfyrio ar y cyd ar ddysgu ac addysgu.

## Arweinyddiaeth

Dylai partneriaethau anelu at ddatblygu sgiliau arwain athrawon dan hyfforddiant ac agweddau positif tuag at arweinyddiaeth. Dylent ddarparu cyfleoedd iddynt ymgymryd â rolau arwain fel y bo'n briodol, a hefyd arsylwi ar eraill yn arfer sgiliau arwain. Yng nghydestun AGA, mae'r maes arweinyddiaeth yn ymwneud â'r canlynol: ymwybyddiaeth athrawon dan hyfforddiant o'u cyfrifoldeb proffesiynol i fod yn drefnus a rheoli'r amgylchedd dysgu er lles pob dysgwr; cyfrifoldebau contractiol, bugeiliol, iechyd a diogelwch, cyfreithiol a phroffesiynol athrawon; arwain dysgu drwy brofiadau cydweithredol mewn ysgolion ac mewn cyd-destunau eraill; ac arsylwi a deall natur cyfrifoldebau o fewn ac ar draws timau.

### Cymryd cyfrifoldeb drosoch chi'ch hun

Dylai partneriaethau annog a disgwyl i athrawon dan hyfforddiant ddeall pwysigrwydd bod yn drefnus yn broffesiynol a rheoli'r amgylchedd dysgu er lles pob dysgwr. Dylent gael cyfleoedd i ddatblygu a dangos eu hymrwymiad i egwyddorion tegwch drwy:

- sefydlu perthnasau cadarnhaol gyda dysgwyr, cydweithwyr a, lle'n briodol, rhieni/gofalwyr, yn seiliedig ar barch ac ymrwymiad i degwch
- deall y rhwystrau posibl i ddysgu (gwybyddol, cymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol, economaidd) a'r cyfraniad y gallant ei wneud at oresgyn y rhwystrau hyn drwy addysgu effeithiol.

### Arfer cyfrifoldeb corfforaethol

Dylai partneriaethau ddarparu gwybodaeth i athrawon dan hyfforddiant am eu cyfrifoldebau contractiol, bugeiliol, iechyd a diogelwch, cyfreithiol a phroffesiynol fel athrawon, a'u helpu i'w deall. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am:

- strwythur a threfniadaeth systemau addysgol, yn enwedig system addysg Cymru
- y fframwaith statudol a'r prosesau gwneud polisi ar gyfer addysg yng Nghymru
- ymrwymiad Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i oblygiadau i hawliau dysgwyr
- nodau, dibenion a threfniadaeth y sector y byddant yn addysgu ynddo a'u cyfrifoldebau proffesiynol a chyfreithiol
- nodau, dibenion a threfniadaeth sectorau addysgol eraill a allai effeithio ar allu dysgwyr i drosglwyddo o un sector i'r llall
- natur diwylliant ysgol a sut mae'n effeithio ar yr addysgu a'r dysgu
- cyfrifoldeb athro wrth fod mewn sefyllfa o ymddiriedaeth yn achos dysgwyr a'r gymuned ehangach
- gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant.

### Arwain cydweithwyr, prosiectau a rhaglenni

Dylai partneriaethau helpu i ddatblygu dealltwriaeth ac ymrwymiad athrawon dan hyfforddiant i arwain dysgu drwy brofiadau cydweithredol mewn ysgolion a chyd-destunau eraill, a'u hymrwymiad i wneud hyn. Dylid annog a chefnogi athrawon dan hyfforddiant i ddangos a modelu:

- rhinweddau arferion proffesiynol personol sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar arferion eraill gan gynnwys athrawon dan hyfforddiant eraill, athrawon, cynorthwywyr dysgu ac oedolion eraill.

### Cefnogi rolau arwain ffurfiol

Dylai partneriaethau ddarparu cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant arsylwi a datblygu dealltwriaeth o natur cyfrifoldebau o fewn ac ar draws timau a'r cyfraniad y mae unigolion yn ei gwneud at lwyddiant ysgol. Dylent gynnwys cyfleoedd i:



- ddatblygu dealltwriaeth o ethos a gweledigaeth yr ysgol
- arsylwi a gwerthfawrogi cydweithwyr yn eu rolau fel arweinwyr addysgol yn yr ysgol
- datblygu gwerthfawrogiad o natur cyfrifoldebau o fewn ac ar draws adrannau a thimau yn yr ysgol
- cyfrannu, fel y bo'n briodol, at agweddau eraill ar fywyd yr ysgol e.e. drwy weithgareddau allgyrsiol.